# Cynllun Gwaith Ofcom 2025/26: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Fe wnaethon ni ymgynghori ar ein Cynllun Gwaith arfaethedig ar gyfer 2025/26 rhwng 4 Rhagfyr 2024 a 29 Ionawr 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, cawsom 120 o ymatebion, gyda 50 ohonynt yn ymatebion union yr un fath gan wahanol unigolion a fynegodd yr un pryderon.

Daw'r ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, cyrff y llywodraeth, sefydliadau defnyddwyr, cyrff y diwydiant ac unigolion. Pan fo rhanddeiliaid yn rhoi caniatâd, byddwn yn cyhoeddi eu hymatebion ar ein gwefan.

Fe wnaethom hefyd gynnal pedwar digwyddiad ymgynghori ar wahân yn Llundain, Caeredin, Belfast a Chaerdydd, gan roi cyfle i randdeiliaid gysylltu'n uniongyrchol â ni ar ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad a/neu i ymuno â'n digwyddiadau ymgynghori.

Pwrpas y ddogfen hon yw tynnu sylw at rai themâu allweddol o'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad a chynnig ein hymateb iddyn nhw. Mae'r crynodebau wedi'u grwpio'n themâu i adlewyrchu strwythur y Cynllun Gwaith, sef:

1. Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw
2. Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi
3. Byw bywyd mwy diogel ar-lein
4. Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU
5. Meysydd trawsbynciol a gwaith sylfaenol

Mae gan y rhan fwyaf o raglenni polisi a nodir yn y Cynllun Gwaith eu proses ymgynghori a'u hamserlenni eu hunain, felly mae ein hymatebion yn cyfeirio'n bennaf at waith presennol, ymgyngoriadau parhaus/ar y gweill, a deunyddiau a gyhoeddwyd gan Ofcom. Mewn rhai achosion, rydym wedi codi pwyntiau penodol yn uniongyrchol gyda rhanddeiliaid. Pan fo rhanddeiliaid wedi gofyn am i'w hymatebion aros yn gyfrinachol, nid ydym wedi cyfeirio atyn nhw yn y ddogfen hon.

# 1. Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

## Cludadwyedd rhifau

**Galwodd Cyngor Cyfathrebu'r DU am adolygiad o gludadwyedd rhifau a mwy o gefnogaeth ac ymgysylltiad gan Ofcom ar gyfer newid busnes. Roedd gan Magrathea Telecommunications sylwadau tebyg hefyd gan ddweud bod cludadwyedd rhifau yn broblem i ddarparwyr busnes ac nad oes digon o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r cymhlethdodau sylfaenol sy'n gysylltiedig â darparu prosesau newid newydd ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnesau.**

**Awgrymodd y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu fod angen gwneud gwelliannau i'r prosesau cludo rhifau ar gyfer cwsmeriaid busnes ac ail-werthwyr er mwyn galluogi newid busnes a rhoi mwy o ddewis i gwsmeriaid.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd prosesau'r diwydiant fel cludo rhifau i sicrhau bod cwsmeriaid preswyl a busnes yn gallu cadw rhif wrth newid darparwr. Yn ein Datganiad ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom ddweud ei bod yn bwysig bod y diwydiant yn ystyried y rhyngweithio rhwng newid a chludo wrth roi prosesau newid newydd ar waith. Fel yr esboniwyd ymhellach yn ein llythyr ym mis Medi 2023, rydym o'r farn bod y rhyngweithio hwn yn arbennig o bwysig ac ystyried y gofynion sydd wedi'u nodi yn ein rheolau newid lefel uchel, gan gynnwys bod yn rhaid i ddarparwyr gynnal prosesau syml ac effeithlon ar gyfer symud rhwng darparwyr cyfathrebiadau. Felly, fe wnaethom ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu a gweithredu newidiadau i'r arferion gorau yn y diwydiant o ran cludo rhifau fel bod y profiad o newid a chludo rhifau yn well. Ond, fel y gwnaethom esbonio yn ein datganiad ac ymgynghoriad ym mis Medi 2021, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol i ni fynnu bod y diwydiant yn dilyn proses benodol ar gyfer newid rhwng busnesau yn ein rheolau newid.

## Cronfa ddata o rifau cyffredin

**Roedd Magrathea Telecommunications yn siomedig o weld nad oedd Ofcom wedi sôn am gronfa ddata o rifau cyffredin gan fod y diwydiant, drwy'r NICC, wedi cyfrannu at ymdrechion i adolygu manteision cronfa ddata o'r fath.**

**Mynegodd y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu ei siom hefyd nad oedd cronfa ddata o rifau cyffredin ar gael yn y Cynllun Gwaith a gynigir.**

Rydym yn parhau i glywed adborth am effeithiolrwydd posibl cronfa ddata o rifau cyffredin o ran diogelwch, cadernid a chystadleuaeth, yn ogystal â'r costau a'r heriau posibl. Rydym yn ystyried y mater.

## Cynnwys 'Post' yn 'Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw'

**Mynegodd Wight Fibre bryder bod y sector telegyfathrebiadau sefydlog wedi cael ei drin fel gwaith cynnal a chadw a'i grwpio gyda gwasanaethau Post.**

**Gofynnodd y Gymdeithas Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol i Ofcom ailystyried cyfuno'r rhyngrwyd a phost yn un flaenoriaeth a gwahanu telegyfathrebiadau oddi wrth y sector post yn lle hynny.**

**Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban fod ychwanegu 'Post' yn y flaenoriaeth yn rhy hwyr a bod ein gwaith rheoleiddio nawr wedi arwain at fesurau lliniaru yn hytrach nag at gamau cadarnhaol.**

Rydym wedi datblygu ein blaenoriaethau i helpu i nodi, mewn iaith hygyrch, y canlyniadau lefel uchel rydym am eu gweld ar draws ein sectorau. Maen nhw hefyd yn ddefnyddiol o ran darparu ffordd o grwpio ein gwaith, sy'n cyd-fynd yn fras â'r dyletswyddau sydd gennym ar draws ein cylch gwaith.

## Darpariaeth band eang a'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

**Ymatebodd yr Aelod o Senedd yr Alban ar ran yr Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban fod y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu o dan anfantais oherwydd diffyg seilwaith cyfathrebu digonol gan gynnwys ffeibr. Fe wnaethon nhw annog Ofcom i gymryd camau rheoleiddio mwy cadarn gyda darparwyr nad ydyn nhw'n gwario digon ar gynnal a chadw seilwaith nac ar fuddsoddiadau newydd. Gofynnodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ofcom ystyried faint o rwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar gael yng Ngogledd Iwerddon, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ac y dylai Ofcom ystyried pryderon ynghylch cysylltedd a gwasanaethau i gwsmeriaid ar sail ranbarthol.**

**Fe wnaeth Llywodraeth Cymru annog Ofcom i ddarparu rhagor o fanylion am y dulliau rheoleiddio sydd ar gael i sbarduno cysylltedd band eang a symudol yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd, fel nad yw'r rhaniad digidol yn mynd yn fwy.**

**Dywedodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl fod gwelliannau mewn cysylltedd ond yn fuddiol os oes modd defnyddio gwasanaethau a dyfeisiau, ac y dylai Ofcom fod yn ymwybodol o bwy allai fod yn cael eu heithrio'n ddigidol.**

**Galwodd Which? ar Ofcom i amlinellu'r cynigion a'r amserlenni ar gyfer adolygu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang. Fe wnaeth Llywodraeth yr Alban ddadlau bod achos dros gynyddu'r lefel gwasanaeth sylfaenol a'r cap cyllido. Fe wnaeth Consumer Scotland annog Ofcom i weithio i sicrhau bod dewis o wasanaethau ffôn symudol a rhyngrwyd fforddiadwy o ansawdd uchel ar gael i ddefnyddwyr ledled y DU, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd "anodd eu cyrraedd".**

Ar 20 Mawrth 2025, fe wnaethom ni gyhoeddi ymgynghoriad gyda'n cynigion ar gyfer rheoleiddio'r marchnadoedd telegyfathrebiadau llinellau sefydlog yn y DU (heblaw am Ardal Hull), ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Mae ein cynigion yn ceisio hyrwyddo buddsoddiad masnachol i ymestyn darpariaeth rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits (gan gynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn), a chystadleuaeth rhwng rhwydweithiau lle mae hyn yn ymarferol. Byddem yn annog rhanddeiliaid i ymateb i'n hymgynghoriad sy'n dod i ben ar 12 Mehefin 2025. Rydym yn bwriadu ystyried barn rhanddeiliaid a chyhoeddi ein penderfyniadau terfynol erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Ar 5 Rhagfyr 2024, fe wnaethom adrodd yn Cysylltu'r Gwledydd 2024 bod y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau band eang gyda chyflymder llwytho i lawr o 30 Mbit yr eiliad o leiaf, wedi cyrraedd 75%. Mae hyn yn bodloni trothwy statudol i Lywodraeth y DU ofyn i ni adolygu agweddau penodol ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r darparwyr dynodedig (BT a KCOM) yn cyflawni'r Rhwymedigaeth

Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang ac yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y dull gweithredu ar gyfer y Rhwymedigaeth hon yn y dyfodol.

## Darpariaeth Symudol

**Rhoddodd Cyngor ar Bopeth yr Alban gefnogaeth i waith Ofcom ar y ddarpariaeth symudol i wella cywirdeb a chysondeb y ddarpariaeth a'r perfformiad, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, gofynnodd am welliant o ran sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i chyfleu i ddefnyddwyr.**

**Dywedodd Which? ei fod yn gobeithio y bydd Ofcom yn parhau i wella ei fethodoleg a ddefnyddir i ragweld y ddarpariaeth symudol.**

**Gofynnodd Cellnex i Ofcom ganolbwyntio mwy ar wella'r broses o adrodd ar berfformiad a darpariaeth symudol.**

**Fe wnaeth BT annog Ofcom i sicrhau bod unrhyw addasiadau i adroddiadau am ddarpariaeth symudol a mesurau o ran perfformiad yn cael eu rhoi ar waith yn y ffordd sydd fwyaf buddiol i'r defnyddiwr, gan leihau unrhyw ddryswch, a rhoi darlun go iawn yn ogystal â lleihau'r baich ar ddarparwyr.**

**Fe wnaeth Llywodraeth yr Alban annog Ofcom i asesu pa mor effeithiol ac ymarferol fyddai ymgorffori dulliau casglu data mewn modd torfol, yn ogystal â newid y data am gysylltedd symudol sydd ar gael i gyrff y llywodraeth fel bod modd canolbwyntio ar ansawdd signal yn hytrach na darpariaeth yn unig.**

**Fe wnaeth Consumer Scotland ddweud y dylai Ofcom sicrhau bod gwasanaethau ffôn a rhyngrwyd fforddiadwy o ansawdd uchel ar gael i'r holl ddefnyddwyr ledled y DU.**

**Awgrymodd Pwyllgor Cynghori'r Alban y dylai Ofcom wneud mwy i fynd i'r afael â chysylltedd yn yr Alban, fel sicrhau bod rhwydweithiau symudol yn gadarn gan fod defnyddwyr yn aml yn dibynnu ar 4G i gael mynediad i'r rhyngrwyd.**

**Fe wnaeth Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon annog Ofcom i flaenoriaethu darpariaeth symudol ar gyfer busnesau bach ac ardaloedd gwledig.**

Rydym yn gwella ein proses o adrodd ar berfformiad a darpariaeth. Mae cyfyngiadau ar ein dull presennol o adrodd am ddarpariaeth symudol, sydd wedi'i seilio ar ragfynegiadau o gryfder y signal ar hyn o bryd gan y gweithredwyr rhwydweithiau symudol. Nid yw bob amser yn adlewyrchu profiad uniongyrchol defnyddwyr, yn enwedig yng nghyd-destun ceisio gweld beth yw'r perfformiad neu'r ddarpariaeth ar lefel leol, a ddarperir gennym ar ein gwiriwr darpariaeth symudol.

Byddwn yn cyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf o'n gwiriwr darpariaeth symudol erbyn yr haf. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio trothwyon signal sy'n mynd ati'n well i gynrychioli'r perfformiad disgwyliedig wrth gyflwyno rhagfynegiadau o'r ddarpariaeth leol. Rydym hefyd yn bwriadu ymgorffori dulliau casglu data mewn modd torfol fel bod mwy o ragfynegiadau o'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth o le, a gyda pha weithredwyr rhwydweithiau symudol, y gall defnyddwyr ddisgwyl profiad da.

## Cymorth i fusnes/diwydiant

**Mynegodd rhai rhanddeiliaid anfodlonrwydd ag Ofcom am y modd mae'n rhyngweithio ac yn ystyried busnesau a'r diwydiant. Dywedodd Magrathea Telecommunications ei fod yn teimlo nad yw busnesau'n cael eu hystyried ddigon mewn penderfyniadau ar lunio polisïau, ac y byddai'n fuddiol i Ofcom gael hyrwyddwr busnes sy'n cynrychioli'r gymuned.**

**Yn yr un modd, fe wnaeth y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu annog Ofcom i benodi arweinydd busnes a fyddai'n gyfrifol am dwf economaidd. Awgrymodd hefyd y dylai Ofcom ganolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr busnes a mynegodd siom ynghylch y diffyg ffocws ar hyn yn y Cynllun Gwaith a gynigir.**

**Roedd Cyngor Cyfathrebu'r DU yn gefnogol o waith Ofcom wrth iddo fynd i'r afael â sgamiau ond roedd am i Ofcom ymrwymo i ffurfio grŵp ymgysylltu â'r diwydiant. Dywedodd Cyngor Cyfathrebu'r DU hefyd fod Ofcom yn diystyru gwasanaethau llais ac yn rhoi mwy o sylw i gysylltedd rhyngrwyd a sbectrwm, a chynigiodd y dylai Ofcom benodi hyrwyddwr busnes i helpu i lunio ei bolisïau.**

**Galwodd Cellnex ar Ofcom i ymgysylltu'n ehangach â'r gadwyn gwerth telegyfathrebiadau di-wifr. Ategwyd hyn gan TechUK a oedd yn awgrymu bod rôl i arbenigwyr annibynnol ac archwilwyr allanol gynorthwyo Ofcom yn ei waith a chynnal hyder y diwydiant.**

**Dywedodd Openreach hefyd, er ei fod yn cefnogi'r ffaith bod tîm Cysylltu'r Gwledydd yn rhagweithiol, mae'n ei chael yn anodd cynhyrchu'r data a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad.**

Mae'n hanfodol bod gennym ddealltwriaeth fasnachol drylwyr o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio er mwyn cyflawni ein dyletswyddau fel rheoleiddiwr. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y galluoedd hyn drwy recriwtio cydweithwyr sydd â phrofiad masnachol, gan ddefnyddio secondiadau, a pharhau â'n rhaglen ymchwil defnyddwyr a masnachol. Rydym yn cydnabod bod marchnadoedd llais yn farchnadoedd arbennig o bwysig i fusnesau, ac rydym yn disgwyl i'r Adolygiad o'r Farchnad Llais Cyfanwerthol ystyried sut mae'r marchnadoedd hyn yn gweithio i bob cwsmer, gan gynnwys cwsmeriaid busnes.

Mewn perthynas ag ymateb Cellnex, byddem yn nodi ein bod yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac yn agored i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y gadwyn gwerth mewn perthynas â'n dyletswyddau.

Rydym yn cydnabod y gall casglu a chyflwyno data ar gyfer rhaglen Cysylltu'r Gwledydd olygu cryn ymdrech i dynnu data o nifer o ffynonellau data a gwaith rheoli ansawdd cysylltiedig. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi adolygu a symleiddio ein gwaith casglu data, ac rydym bellach yn cael gwybodaeth am ddarpariaeth ffeibr ddwywaith (o'i gymharu â thair gwaith) y flwyddyn. Rydym hefyd wedi lleihau'r gwaith o gasglu data am hen dechnolegau i unwaith y flwyddyn yn unig. Bydd y newidiadau hyn yn lleihau'r baich ar ein rhanddeiliaid i gefnogi rhaglen Cysylltu'r Gwledydd yn y dyfodol.

## Fforddiadwyedd telegyfathrebiadau a mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr agored i niwed a gwasanaeth i gwsmeriaid

**Dywedodd amrywiaeth o randdeiliaid fod fforddiadwyedd telegyfathrebiadau yn un o'r prif bryderon iddyn nhw.**

**Gofynnodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon i Ofcom ystyried rhagor o fesurau diogelu i ddefnyddwyr o ran fforddiadwyedd telegyfathrebiadau, fel monitro profiad defnyddwyr drwy fodlonrwydd cwsmeriaid a gweithio i ddeall defnyddioldeb pecynnau ffôn a band eang rhatach. Er bod Cyngor ar Bopeth yr Alban yn gefnogol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar fforddiadwyedd, roedden nhw'n poeni am feini prawf cymhwysedd cul y tariffau cymdeithasol sydd ar waith.**

Gyda'n Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu, byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar ymddygiad ac agweddau defnyddwyr o ran fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, a sut maen nhw'n newid.

Mae ein hadroddiad Tueddiadau Prisiau 2024 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ba dariffau cymdeithasol sydd ar gael, y nifer sy'n manteisio arnyn nhw, ac ymwybyddiaeth y defnyddwyr ohonyn nhw. Fe wnaethom nodi bod mwy o bobl yn elwa o'r arbedion mae tariffau cymdeithasol yn eu cynnig, gyda'r nifer sy'n manteisio arnyn nhw yn cynyddu 125,000 (33%) i 506,000 yn y naw mis hyd at fis Mehefin 2024. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol yn dal i fod yn isel ymhlith y rheini sy'n gymwys i'w cael. Byddwn yn parhau i helpu i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol, drwy ddal ati i'w hyrwyddo, ymgysylltu ymhellach â darparwyr, a thrwy weithio gyda Llywodraeth y DU a sefydliadau defnyddwyr, i helpu i sicrhau bod mwy o aelwydydd cymwys yn ymwybodol o'r cymorth y gallan nhw ei gael.

Er mai rhywbeth gwirfoddol yw tariffau cymdeithasol, ac nad oes gan Ofcom y pŵer i gyflwyno tariffau cymdeithasol wedi'u rheoleiddio heb gael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Lywodraeth y DU, rydym wedi pennu cyfres o feini prawf cyson ar draws y tariffau cymdeithasol a restrir ar ein gwefan. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n cael unrhyw fudd-dal sy'n seiliedig ar brawf modd (fel pobl sydd ar Gredyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Lwfans Ceisio Gwaith, a Chymhorthdal Incwm), sy'n gymwys i gael y tariff cost is hwn. Os nad yw unigolyn yn gymwys i gael tariff cymdeithasol ond ei fod yn cael trafferth fforddio ei fil, byddwn yn ei annog i siarad â'i ddarparwr a allai helpu (fel y nodir isod).

**Roedd rhai rhanddeiliaid yn gefnogol o waith Ofcom ar ddiogelu defnyddwyr agored i niwed, fel The Trust Alliance Group, yn ogystal â Chyngor ar Bopeth yr Alban a soniodd am waith Ofcom gyda Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU. Un cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon yw y dylai Ofcom annog darparwyr i gefnogi defnyddwyr sy'n wynebu caledi ariannol a rhoi mesurau ataliol ar waith i leihau niwed.**

Mae gennym reolau ar waith ar gyfer sut mae trin cwsmeriaid pan nad ydyn nhw wedi talu eu biliau. Mae'r rhain yn cynnwys dyletswyddau i sicrhau bod unrhyw fesurau a gymerir gan ddarparwyr i sicrhau taliad neu i ddatgysylltu gwasanaethau yn gymesur ac nad ydyn nhw'n gwahaniaethu'n ormodol. Hefyd, mae gennym reolau sy'n mynnu bod cwsmeriaid agored i niwed yn cael eu trin yn deg. I gyd-fynd â'r olaf, rydym wedi awgrymu nifer o arferion da ar gyfer darparwyr yn ein canllaw Trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg, er mwyn trin cwsmeriaid sy'n wynebu caledi ariannol yn deg. Mae'n datgan bod datgysylltu'n gam difrifol y dylid ei ddefnyddio fel y cam olaf yn unig, a dylai darparwyr gymryd nifer o gamau cyn ystyried datgysylltu. Mae camau arferion da o'r fath yn cynnwys mynd ati'n rhagweithiol ac yn amlwg i bwysleisio'r cymorth sydd ar gael gan ddarparwyr i gwsmeriaid sydd mewn dyled ac ystyried amgylchiadau'r cwsmer wrth gysylltu â chwsmer am ei ddyled. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r canllaw hwn yn cael ei roi ar waith.

**Ar ôl i Ofcom wahardd cynnydd mewn prisiau yn ystod cyfnod contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant, dywedodd Which? fod rhai darparwyr wedi cyflwyno contractau sy'n cynnwys cynnydd blynyddol mewn prisiau yn ystod cyfnod contract a fydd yn fwy na gwerth y cynnydd mewn prisiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant yn 2025. Dywedodd Which?, o dan y telerau newydd hyn ar gyfer codi prisiau, y bydd cost tariffau rhatach yn cynyddu'n fwy cymesur na chost tariffau**

**drutach. Nododd hefyd benderfyniadau rhai darparwyr i gyflwyno contractau sy'n cynnwys cynnydd blynyddol mewn prisiau o'r un swm.**

Rydym wedi cyflwyno rheolau sy'n mynnu bod darparwyr telegyfathrebiadau a theledu-drwy-dalu, lle maen nhw'n cynnwys cynnydd mewn prisiau yn eu contractau, yn nodi'r rhain yn glir mewn punnoedd a cheiniogau, cyn i gwsmer ymrwymo i'r contract. Bydd hyn yn rhoi eglurder a sicrwydd i ddefnyddwyr ynghylch y pris y byddan nhw'n ei dalu, gan eu helpu i ddewis y cynnig gorau ar gyfer eu hanghenion. Mae marchnadoedd telegyfathrebiadau yn gystadleuol, ac mae cynigion da ar gael i gwsmeriaid sy'n siopa o gwmpas. Yn 2024, gwelsom fod prisiau'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer llinell dir, band eang, symudol a theledu-drwy-dalu wedi aros yr un fath, neu wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall mewn termau real. Mae ystod eang o ddewis ar gael i bobl sy'n dymuno prynu gwasanaethau cyfathrebu, a gall cwsmeriaid heb gontract mwyach fel arfer dalu llai drwy newid darparwr neu ymrwymo i gontract eto gyda'u darparwr presennol.

**Gofynnodd Which? a yw Ofcom yn monitro bod cwsmeriaid sydd heb gontract mwyach ac sydd mewn amgylchiadau bregus yn gallu ymgysylltu â'r farchnad a chael y cynnig gorau iddyn nhw.**

Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod pobl yn cael gwybod pan fydd eu contract yn dod i ben, ac yn cael neges bob blwyddyn i'w hatgoffa os na fyddan nhw'n ymrwymo i gontract arall. Rydym hefyd wedi ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid ffonau symudol Newid yn Awtomatig ac i gwsmeriaid llinell dir a band eang sefydlog newid drwy broses Newid Un Cam. Hefyd, rydym yn parhau gyda chynllun achredu gwirfoddol ar gyfer offer cymharu sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr i bobl sy'n defnyddio'r ystod eang o gynnyrch ffôn, band eang a theledu-drwy-dalu sydd ar gael heddiw, ac i helpu cwsmeriaid siopa o gwmpas yn hyderus a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

**Mynegodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl bryderon ynghylch darparwyr cyfathrebiadau yn symud i raglenni hunan-wasanaeth yn llwyr a'r posibilrwydd y bydd rhai defnyddwyr yn cael eu heithrio'n ddigidol.**

Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ystyried anghenion gwahanol ddefnyddwyr drwy ryngweithio ac ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, os hoffai cwsmer wneud cwyn, rhaid i weithdrefnau darparwyr fod yn ddigon hygyrch, gan gynnwys i gwsmeriaid a allai fod yn agored i niwed. Mae ein rheolau'n mynnu bod darparwyr yn caniatáu i gwsmeriaid gwyno drwy rif 'am ddim', drwy'r post a drwy e-bost neu drwy ffurflen ar dudalen we, yn ogystal ag unrhyw ddulliau cyfathrebu eraill.

Hefyd, mae gennym reol sy'n mynnu bod darparwyr, pan wneir cais iddyn nhw, yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau ar gael mewn fformat rhesymol dderbyniol ac am ddim i unrhyw danysgrifiwr sydd angen hynny oherwydd eu hanableddau. Ar ben hynny, i gydnabod y ffaith nad yw rhai pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd, mae ein canllaw ar drin cwsmeriaid agored i niwed yn deg yn dweud ein bod yn disgwyl i ddarparwyr gynnig gwybodaeth am gymorth, cefnogaeth a gwasanaethau perthnasol mewn gwahanol fformatau neu drwy sianeli cyfathrebu eraill. Mae'r canllaw yn dweud hefyd ein bod yn disgwyl i ddarparwyr gynnig amrywiaeth o sianeli cyfathrebu i gwsmeriaid, sy'n adlewyrchu anghenion eu cwsmeriaid, gan wneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn gallu defnyddio'r sianeli hyn i wneud tasgau cyfrif pwysig.

**Dangosodd Trust Alliance Group gefnogaeth i gynigion Ofcom i ail-gymeradwyo'r Ombwdsmon Cyfathrebiadau fel darparwr dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) ar gyfer gwasanaethau symudol, band eang a llinell dir ac i leihau'r amser y mae'n rhaid i ddefnyddwyr aros i gael mynediad at hyn. Nododd Which? fod cynnal dau ddarparwr ADR yn rhoi dewis i ddarparwyr, ond nid i'r defnyddiwr.**

Yn ddiweddar, aeth Ofcom ati i ymgynghori ar leihau'r amser y mae'n rhaid i ddefnyddwyr aros i gael mynediad at ADR, o 8 wythnos i 6 wythnos, ac ar ail-gymeradwyo'r ddau gynllun ADR yn y sector telegyfathrebiadau. Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad yn ofalus cyn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol yn ystod haf 2025.

**Nododd Which? fod Ofcom yn chwarae rhan bwysig o ran tryloywder drwy gyhoeddi data ar gwynion gan gwsmeriaid, ond dywedodd y gallai Ofcom chwarae rhan fwy gweithredol yn y gwaith o wella safonau gwasanaeth i gwsmeriaid ar draws marchnadoedd band eang a symudol.**

Rydym yn deall pwysigrwydd gwasanaeth da i gwsmeriaid ac rydym wedi gweithio i helpu cwsmeriaid i gael cynnig teg am eu gwasanaethau. Er enghraifft, mae cwmnïau mwyaf y DU ar gyfer band eang a theledu-drwy-dalu wedi ymrwymo i wneud hyn drwy gytuno i'r ymrwymiad tegwch. Nod hyn yw sicrhau bod pobl bob amser yn cael eu trin yn deg gan eu darparwr – p'un ai a ydyn nhw'n cofrestru ar gyfer cytundeb newydd, yn ceisio datrys problem, neu'n symud at gwmni newydd.

Fel rhan o'n gwaith i fonitro cydymffurfedd â rheolau diogelu defnyddwyr, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein hymyriadau i ddiogelu defnyddwyr a'n cynlluniau gwirfoddol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol, a'u bod yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr. Bydd ein gwaith casglu gwybodaeth, drwy adolygu sawl ffynhonnell ddata gan gynnwys ein cronfa ddata cwynion ein hunain, yn parhau i ganiatáu i ni ddefnyddio dull penodol gyda darparwyr i ddeall a datrys pryderon cydymffurfio cyn iddyn nhw waethygu.

Eleni, yn ogystal â'n hadroddiad chwarterol ar gwynion, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad cymharu gwasanaethau i gwsmeriaid a fydd yn edrych ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gwsmeriaid preswyl yn y farchnad telegyfathrebiadau. Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o brosesau darparwyr i ddelio â chwynion, gan ymgysylltu â darparwyr ar feysydd i'w gwella a rhannu arferion gorau ar draws y diwydiant yn ehangach.

## Diffodd PSTN a diffodd 2G/3G

**Yn yr ymatebion gan randdeiliaid, cyfeiriwyd sawl gwaith at ddiffodd y Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus (PSTN) (a elwir hefyd yn symud i IP) a diffodd 2G/3G.**

**Roedd Openreach yn croesawu cynnwys y broses symud i IP yn y Cynllun Gwaith gan ei fod yn meddwl bod hyn yn cydnabod pwysigrwydd y mater hwn. Galwodd Openreach ar Ofcom hefyd i weithio'n agosach gyda darparwyr cyfathrebiadau ar y broses symud. Mynegodd Consumer Scotland bryderon am effaith symud i VoIP ar ddefnyddwyr yn yr Alban ac amlinellodd y gwaith cyfathrebu ac eiriolaeth y mae'n ei wneud yn y maes hwn.**

**Dywedodd Cyngor Cyfathrebu'r DU nad oes digon o ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r broses symud i IP ac y byddai ymgyrch gyfathrebu annibynnol yn fuddiol, tebyg i'r hyn a gafwyd pan ddiffoddwyd teledu daearol. Gofynnodd i ni argymell hyn i'r Llywodraeth.**

**Dywedodd Cyngor ar Bopeth yr Alban y byddai'n croesawu unrhyw ddadansoddiad ar effaith y symud i ffwrdd oddi wrth 2G a 3G ar wasanaethau fel mesuryddion clyfar. Nododd hefyd y gallai cwsmeriaid anabl fod yn arbennig o ddibynnol ar ddyfeisiau 2G a 3G yn unig, ac fe wnaethon nhw annog Ofcom i sicrhau bod y defnyddwyr hyn yn cael eu cefnogi yn ystod y broses.**

**Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at yr effaith bosibl ar ddefnyddwyr yng Nghymru wrth ddod â hen wasanaethau i ben, a gofynnodd am ragor o fanylion am gynlluniau Ofcom i sicrhau bod**

**defnyddwyr, yn enwedig defnyddwyr agored i niwed a'r sector cyhoeddus, yn cael eu cefnogi a'u diogelu yn ystod y newid.**

**Byddai Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar (NADP) yn croesawu mwy o dryloywder ynghylch yr atebion sy'n cael eu cynnig gan y gwahanol ddarparwyr cyfathrebu yn y broses newid o PSTN i VoIP er mwyn i bobl fyddar fod yn fwy hyderus eu bod yn cael gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion.**

Mae symud o'r PSTN traddodiadol i wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP) digidol (a elwir hefyd yn llinellau tir digidol) yn rhan o gynllun ehangach sy'n cael ei arwain gan y diwydiant i foderneiddio seilwaith telegyfathrebiadau'r DU. Mae'r newid hwn yn cael ei sbarduno gan ddatblygiadau mewn technoleg a'r ffaith bod y PSTN presennol y tu hwnt i'r oes y bwriadwyd iddo fod, a'i fod yn fwyfwy annibynadwy. Er mai penderfyniad y diwydiant yw hwn, rydym yn monitro'r newid hwn yn ofalus. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rhai agored i niwed, yn cael eu diogelu rhag niwed yn ystod y cyfnod symud. Rydym wedi bod yn glir gyda darparwyr cyfathrebiadau o'r cychwyn cyntaf bod angen iddyn nhw sicrhau eu bod yn diogelu cwsmeriaid wrth eu symud i linellau tir digidol. Rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr asesu anghenion eu cwsmeriaid a chynnig cymorth gyda'r symud os oes angen.

Mae gennym raglen fonitro barhaus, ac rydym yn gweithio'n agos gyda darparwyr telegyfathrebiadau, Llywodraethau (gan gynnwys gweinyddiaethau datganoledig), grwpiau defnyddwyr a chyrff y diwydiant i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu symud gyda chyn lleied o darfu â phosibl, a bod grwpiau agored i niwed fel defnyddwyr gwasanaethau teleofal, pobl sydd ag anableddau, a chwsmeriaid sy'n dibynnu ar linell dir yn cael eu diogelu rhag niwed.

Rydym yn credu mai'r diwydiant sydd yn y sefyllfa orau i gyfathrebu â'u cwsmeriaid am y broses symud i VoIP a'r cynnyrch maen nhw'n eu cynnig, ac i weld pwy fydd angen mwy o gymorth, yn enwedig gan fod darparwyr yn dilyn amserlenni gwahanol ar gyfer symud cwsmeriaid mewn gwahanol leoliadau. Mae gan Ofcom wybodaeth a chyngor am y symud ar ein gwefan sy'n benodol ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnesau bach, ac rydym yn hyrwyddo hyn, o bryd i'w gilydd, ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym raglen ymgysylltu reolaidd gyda rhanddeiliaid gan gynnwys grwpiau defnyddwyr, ac mae gennym gynnig i grwpiau defnyddwyr ac elusennau i'w helpu i ddrafftio cyfathrebiadau a gwybodaeth sydd wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer pryderon eu grwpiau cleientiaid. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y prif sectorau seilwaith cenedlaethol yn ymwybodol o'r symud a'r hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud.

Gwnaeth pob gweithredwr rhwydwaith symudol ymrwymo i Lywodraeth y DU i ddiffodd eu rhwydweithiau 2G a 3G erbyn 2033 fan bellaf. Bydd hyn yn arwain at wella effeithlonrwydd y rhwydweithiau ac yn golygu bod modd defnyddio mwy o sbectrwm ar gyfer gwasanaethau 4G a 5G.

Ym mis Chwefror 2023, fe wnaethom nodi nifer o ddisgwyliadau ar ddarparwyr symudol ynghylch diffodd rhwydweithiau 3G a 2G, a'u diben oedd sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg a bod cyn lleied â phosibl o darfu ar gwsmeriaid. Roedd y rhain yn cynnwys disgwyliadau sy'n ymwneud â darpariaeth, cyfathrebu â chwsmeriaid a darparu cymorth iddyn nhw, a helpu i godi ymwybyddiaeth gyda gwasanaethau eraill sy'n dibynnu ar rwydweithiau symudol. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â gweithredwyr rhwydweithiau symudol i weld beth yw cynnydd eu cynlluniau diffodd 2G/3G ac yn

gofyn i weithredwyr rhwydweithiau symudol adrodd yn rheolaidd ar hyn – gan gynnwys ar y camau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd i gefnogi cwsmeriaid agored i niwed yn ystod y broses ddiffodd.

Byddwn yn parhau i fonitro'r prosesau newid hyn yn ofalus hyd nes byddan nhw wedi'u cwblhau. Byddwn hefyd yn parhau i gwrdd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i helpu i godi ymwybyddiaeth drwy gydol y broses o ddiffodd hen rwydweithiau symudol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â chyrff yn y diwydiant sy'n cynrychioli sectorau y gallai diffodd y rhwydweithiau effeithio arnyn nhw.

Mae gan Lywodraeth y DU rôl allweddol i'w chwarae hefyd o ran helpu i sicrhau bod y sectorau sy'n dibynnu ar gysylltedd 2G/3G ar gyfer eu gwasanaethau yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn paratoi yn unol â hynny. Gallwn ddarparu cymorth technegol, pan fydd ei angen, i gefnogi'r amcan hwn.

## Sgamiau

**Cafodd gwaith Ofcom ar sgamiau ei nodi gan amrywiaeth o randdeiliaid, a chawsom ein hannog gan sefydliadau, megis Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, i barhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â sgamiau yn y sector Telegyfathrebiadau. Tynnodd rhai rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod cydweithio a rhannu gwybodaeth ar draws sectorau yn hanfodol, ac y gallai Ofcom fod mewn sefyllfa dda i hwyluso hyn.**

**Fe wnaeth rhanddeiliad annog Ofcom i sicrhau bod cydgasglwyr Haen 1 yn cael yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i fynd i'r afael â sgamiau. Fe wnaethon nhw ddweud, pe bai Ofcom yn edrych ar y potensial i sefydlu, gweithredu, a rheoleiddio Cofrestrfa ID Anfonwyr yn y DU, y byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â thwyll.**

Mae ein Cais am Fewnbwn ar sgamiau negeseuon symudol yn nodi'r dystiolaeth sydd ar gael ar raddfa'r negeseuon sgam ac amrywiaeth o fesurau y gellid eu defnyddio i ddiogelu defnyddwyr. Ers i'r Cais am Fewnbwn ddod i ben, rydym wedi bod yn adolygu ymatebion rhanddeiliaid a byddwn yn edrych ar yr opsiynau ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

**Byddai'r Cyngor Cyfathrebu yn cefnogi ymrwymiad i ffurfio grŵp ymgysylltu â'r diwydiant (fel y nodir yn 'cymorth i fusnes/diwydiant'). Fe wnaeth y Cyngor Cyfathrebu annog Ofcom i gynnwys adolygiad o ddatblygiadau technegol yn ein cynlluniau.**

Byddwn yn parhau i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn eang i fynd i'r afael â sgamiau telegyfathrebiadau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'n gilydd i ganfod tactegau newydd sy'n cael eu defnyddio gan droseddwyr ac atebion newydd a allai helpu i roi stop arnyn nhw.

## Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

**Dywedodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon y byddai'n hoffi gweld cadernid a diogelwch rhwydweithiau a gwasanaethau symudol 2G/3G yn cael eu hystyried yng nghyd-destun Gogledd Iwerddon.**

**Awgrymodd Cellnex y dylai Ofcom edrych ar sut mae gofynion rheoleiddio ar gyfer cadernid rhwydwaith i sicrhau cysylltedd, yn gallu cefnogi achosion lle mae 5G datblygedig yn cael ei ddefnyddio, a hefyd budd i'r amgylchedd.**

Mae Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 wedi diweddaru Deddf Cyfathrebiadau 2003 i gyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer darparwyr Rhwydweithiau a Gwasanaethau Cyfathrebu Electronig Cyhoeddus, o ran diogelwch a chadernid. Mae'n ofynnol i Ofcom geisio sicrhau bod darparwyr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnyn nhw. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr hefyd roi gwybod i Ofcom am ddigwyddiadau penodol sy'n ymwneud â diogelwch a chadernid. Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau rhwydwaith o bob rhan o'r DU i nodi achosion neu feysydd cyffredin y gallai fod angen eu harchwilio ymhellach. Mae hyn yn cynnwys rhwydweithiau sefydlog a symudol, gan gynnwys gwasanaethau symudol 2G/3G cyhoeddus, ledled y DU, gan gynnwys y rheini yng Ngogledd Iwerddon. Mae ein Canllawiau ar Gadernid a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn rhoi arweiniad i Ddarparwyr Cyfathrebiadau ar yr arferion gorau wrth ddylunio, saernïo a gweithredu Rhwydweithiau a Gwasanaethau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus. Mae'n adlewyrchu natur newidiol risgiau cadernid, dibyniaeth gynyddol cymdeithas ar gysylltedd, gwersi a ddysgwyd o gyfnodau segur y tu hwnt i'r DU, a phrofiad Ofcom o adrodd am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddyn nhw dros y blynyddoedd diwethaf.

**Dywedodd y Ffederasiwn Gwasanaethau Cyfathrebu y byddai'n fuddiol rhoi sylw penodol i fatris wrth gefn yn y Cynllun Gwaith a gynigir. Awgrymodd hefyd y dylid safoni ar draws y diwydiant ac mai darparwyr seilwaith fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu atebion. Tynnodd sylw at y ffaith y byddai hyn yn helpu cystadleuaeth, yn lleihau rhwystrau i gael mynediad, ac yn helpu i leihau e-wastraff.**

Ym mis Hydref 2018, amlinellodd Ofcom ei safbwynt ynghylch cael batris wrth gefn yn eiddo defnyddwyr. Mae ein disgwyliadau'n ymwneud â chydymffurfio â'n Hamod Cyffredinol GCA3.2, Felly, er y gallai diwydiant ddewis creu contract â darparwyr seilwaith i ddatblygu atebion effeithlon a chost-effeithiol, mae ein canllawiau i bob pwrpas yn dal i fod yn anelu at y rheini y mae GC3.2 yn berthnasol iddyn nhw.

## Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau (TAR)

**Mae nifer o randdeiliaid wedi mynegi barn am yr adolygiad o fynediad telegyfathrebiadau. Fe wnaeth Llywodraeth yr Alban annog Ofcom i ganolbwyntio ar anghenion cysylltedd cymunedau gwledig yr Alban. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru awgrymu bod Ofcom yn defnyddio TAR, ymhlith dulliau rheoleiddio eraill, i ehangu faint mae cysylltedd band eang a symudol yn ei gyrraedd er mwyn i'r afael â'r eiddo/adeiladau anoddaf eu cyrraedd sy'n gorfod delio â'r band eang mwyaf araf.**

**Dywedodd BUUK Infrastructure nad yw Ofcom yn addasu i newidiadau yn y sector o ran ei ffordd gyda'r TAR sydd ar y gweill, ac mae wedi awgrymu pedwar maes y dylid eu cynnwys yn ei gwmpas: Cau cyfnewidfa Openreach a dosbarthiadau 'ardal', mynediad i seilwaith ffisegol a ffeibr tywyll, cau cyfnewidfeydd a mynediad i'r lle angenrheidiol ar gyfer pibellau, ac annibyniaeth weithredol BT ac Openreach. Dywedodd hefyd y dylem ystyried y gallai'r safle sydd gan BT Consumer yn y diwydiant olygu ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn cystadleuwyr BT Group. Un cynnig a gyflwynwyd gan BUUK Infrastructure oedd i Ofcom gynnal dadansoddiad cost a budd o wahanu strwythur grŵp BT yn llawn i greu dau endid.**

**Gofynnodd Liberty Global i Ofcom alluogi a chymell cydweithredu rhwng rhwydweithiau a chyfuno sydd o blaid cystadleuaeth, oherwydd bydd hyn yn galluogi'r sector i barhau i gyflwyno**

**rhwydweithiau Gigabit. Awgrymodd ein bod yn ystyried rhoi rhagor o arweiniad ynghylch llwybr tebygol y drefn reoleiddio, rhwng 2031 a 2036, er mwyn manteisio i'r eithaf ar gymhellion buddsoddi tymor hir. Galwodd ar y TAR i roi sicrwydd o ran rheoleiddio, ac i reoleiddio Openreach yn briodol, gan ei atal rhag ymddwyn mewn modd sy'n cau pawb allan ac yn gyrru cystadleuaeth o'r farchnad cyn iddi allu datblygu'n effeithiol.**

**Dywedodd BT fod y fframwaith rheoleiddio presennol yn gweithio'n dda oherwydd y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau band eang ac argaeledd 5G. Roedd hefyd yn cytuno â ffocws Ofcom ar ddarpariaeth symudol a diogelwch seilwaith digidol telegyfathrebiadau.**

**Mae Openreach wedi dweud bod angen i ni fynd ymhellach i ddatblygu fframwaith y TAR, gan roi enghreifftiau fel ein rôl i gefnogi symud oddi wrth gopr i annog mabwysiadu ffeibr wrth i wasanaethau copr gael eu tynnu'n ôl. Nododd Openreach hefyd y dylem adolygu ei fesurau ansawdd gwasanaeth yng ngoleuni'r gostyngiad yn nifer y gwasanaethau copr.**

**Argymhellodd Openreach hefyd y dylai Ofcom weld a oes meysydd a fyddai'n addas ar gyfer dadreoleiddio ac ystyried llwyddiant yr Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol.**

**Dywedodd Wight Fibre fod baich gweinyddol trwm yn sgil y cynnyrch Mynediad at Seilwaith Ffisegol (PIA) a bod hyn yn cynyddu costau ac yn achosi oedi. Gwnaeth y Gymdeithas Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol (INCA) sylwadau hefyd ar PIA. Awgrymodd fod Ofcom yn cyflwyno ffrwd waith benodol i wella'r cynnyrch PIA a lleihau'r gwahaniaethau yn y ffordd mae PIA yn cael ei ddefnyddio gan ddarparwyr cyfathrebiadau, a sut mae Openreach yn defnyddio ei rwydwaith ei hun.**

**Roedd y Gymdeithas yn cwestiynu ystyr argaeledd rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel lle mae eu hangen, ac mae'n awgrymu y dylid egluro hyn. Gofynnodd y Gymdeithas hefyd am i'r flaenoriaeth cystadleuaeth gael ei chryfhau, gan awgrymu'r geiriau "Hybu cystadleuaeth ar bob lefel ac ar draws y wlad i ddarparu marchnadoedd effeithlon a chynaliadwy gyda dewis, gwerth a gwasanaethau o ansawdd uchel i ddefnyddwyr". Cynigiodd hefyd gynnwys amcan i fabwysiadu cynnyrch ffeibr llawn a lleihau rhwystrau rheoleiddiol.**

**Yn yr un modd, gofynnodd Wight Fibre i Ofcom greu ffrwd waith benodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth o gynnyrch ffeibr a chynyddu'r nifer sy'n mynd amdano.**

**Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar nad yw'n glir a fydd yr Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau yn cynnwys mynediad i bobl fyddar i'r ffôn drwy Wasanaethau Cyfnewid dros y Ffôn. Byddai'r Gymdeithas yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu gwasanaethau Cyfnewid yn y DU.**

Ar 20 Mawrth 2025, fe wnaethom ni gyhoeddi ymgynghoriad gyda'n cynigion ar gyfer rheoleiddio'r marchnadoedd telegyfathrebiadau llinellau sefydlog yn y DU (heblaw am Ardal Hull), ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2026 a mis Mawrth 2031. Bydd y cynigion hyn yn adeiladu ar ein strategaeth i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn rhwydweithiau o safon sy'n gallu delio â gigabits – gan ddod â band eang cyflymach a gwell i bobl ledled y DU. Ers mis Mai 2021, mae nifer y safleoedd sydd â mynediad at ffeibr llawn wedi cynyddu o 6.9m o safleoedd (24%) i 20.7m (69%) ym mis Gorffennaf 2024, ac mae darpariaeth rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits wedi cynyddu o 11.6m o safleoedd (40%) i 25m o safleoedd (83%). Byddem yn annog rhanddeiliaid i ymateb i'n hymgynghoriad sy'n dod i ben ar 12 Mehefin 2025. Rydym yn bwriadu ystyried barn rhanddeiliaid a chyhoeddi ein penderfyniadau terfynol erbyn diwedd mis Mawrth 2026.

Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i Ofcom adolygu gwasanaethau cyfnewid. Cyhoeddwyd yr arolwg boddhad defnyddwyr diweddaraf yn 2024.

Mewn perthynas â hyrwyddo cystadleuaeth, mae hyn yn un o'n dyletswyddau craidd fel y nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, a byddwn yn mynd ati'n barhaus i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hyrwyddo cystadleuaeth ar draws y sectorau rydym yn eu rheoleiddio lle bo hynny'n briodol.

## Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau Hull

**Awgrymodd MS3 fod Ofcom, yn yr Adolygiad diwethaf o'r Farchnad, yn tybio na fyddai cystadleuaeth rhwydwaith o bwys yn Hull, ond nid yw hyn yn wir mwyach. Argymhellodd ein bod yn cyflawni proses TAR yn Hull heb unrhyw ragdybiaethau ynghylch pa fath/lefel o ymyriadau rheoleiddio fydd yn briodol. Awgrymodd y byddai unrhyw oedi pellach rhag cynnal TAR Hull yn achosi pryder difrifol oherwydd ei fod yn poeni na fydd gan Ofcom ddigon o amser i gasglu ac asesu'r holl ddata perthnasol mewn pryd ar gyfer cyhoeddiad Ch3 2025/26. Dywedodd y byddai'n croesawu datganiad gan Ofcom ar gwmpas ymarfer TAR Hull.**

Mae'n ofynnol i ni adolygu marchnadoedd lle rydym wedi gwneud penderfyniadau ynghylch pŵer y farchnad o fewn pum mlynedd. Fe welsom fod gan KCOM bŵer sylweddol yn y farchnad mewn mynediad lleol cyfanwerthol a marchnadoedd gwasanaethau mynediad llinellau cyfanwerthol ar brydles yn ardal Hull. Aethom ati i osod rheoliadau i fynd i'r afael â'n pryderon o ran cystadleuaeth, a daeth y rhain i rym ar 1 Tachwedd 2021. Ers hynny, rydym wedi bod yn monitro datblygiadau yn ardal Hull yn agos, yn enwedig buddsoddiadau mewn rhwydweithiau ffeibr llawn newydd a chystadleuol, a chystadleuaeth gyda KCOM.

Byddwn yn adolygu marchnadoedd telegyfathrebiadau yn ardal Hull o'r newydd ac rydym yn bwriadu dechrau'r broses o gasglu tystiolaeth o Ch1 2025/2026. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar ein canfyddiadau dros dro ac unrhyw atebion a gynigir erbyn diwedd Ch4 2025/2026.

## Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y Gwasanaeth Post, fforddiadwyedd a diogelu defnyddwyr

**Roedd gan nifer o randdeiliaid farn am gynlluniau Ofcom i gynnig diwygio Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol y gwasanaeth post. Dywedodd Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri na ddylai amcanion ariannol ysgogi newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ac y dylid rhoi blaenoriaeth i anghenion y defnyddiwr wrth newid y rheoliadau. Cefnogwyd hyn gan Gyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon a ofynnodd i Ofcom ystyried y goblygiadau ariannol i ddefnyddwyr yn sgil unrhyw newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.**

**Nododd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon y dylid ystyried rhai amgylchiadau penodol i Ogledd Iwerddon wrth ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.**

**Dywedodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon a Consumer Scotland y dylai Ofcom ystyried yr effaith ar gymunedau gwledig a defnyddwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol wrth ystyried diwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Pwysleisiwyd hyn gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri, a ddywedodd fod y costau uwch a'r prisiau anfforddiadwy i gyfathrebu drwy lythyr wedi effeithio ar gymunedau gwledig.**

**Yn yr un modd, mynegodd Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl bryderon ynghylch defnyddwyr post sydd ag anghenion penodol, yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon ac Ucheldiroedd/Ynysoedd yr Alban.**

Fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar 30 Ionawr 2025, yn nodi cynigion i ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'r diwygiadau a gynigiwn i gefnogi gwasanaeth cyffredinol modern a ddylai fod o fudd i ddefnyddwyr drwy gyd-fynd yn well ag anghenion pobl a busnesau. Yn ei dro, dylai hyn gynnal fforddiadwyedd parhaus gwasanaethau a gallu'r Post Brenhinol i ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol mewn ffordd sy'n gynaliadwy'n ariannol. Mae'r cyhoeddiad yn cynnwys asesiad o anghenion defnyddwyr ac adroddiad ymchwil i anghenion defnyddwyr a oedd yn ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr o bob Gwlad, yn ogystal â'r rheini mewn cymunedau gwledig a'r rheini a allai fod wedi'u heithrio'n ddigidol. Byddwn yn ymgysylltu â Phwyllgorau Cynghori'r Gwledydd a chyrff defnyddwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn deall eu safbwyntiau.

**Cafwyd galwadau gan Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri i'r sector llythyrau gael ei ail-wladoli ac i Ofcom graffu ar sefydliad y Post Brenhinol, gyda phryderon nad yw'r Post Brenhinol wedi cael ei reoleiddio ddigon, a bod ei wasanaethau wedi mynd yn aneffeithlon ac wedi dirywio.**

Mater i Lywodraeth y DU yw perchnogaeth y Post Brenhinol. Rydym yn craffu ar y Post Brenhinol, gan gynnwys ei effeithlonrwydd, a bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi adroddiad sy'n nodi ein hasesiad.

**Galwodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon ar Ofcom i ailedrych ar ei benderfyniad i beidio â chynnwys tracio ac olrhain ar gynnyrch safonol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol.**

Rydym yn egluro yn ein hymgynghoriad diweddaraf nad ydym yn cynnig newidiadau i fanyleb y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer dosbarthu neu gasglu parseli oherwydd byddai perygl i hyn ystumio'r gystadleuaeth ar gyfer parseli. Yn dilyn yr ymchwil defnyddwyr a wnaethom yn 2022 a 2023, rydym yn dal i gredu bod yr anghenion o ran parseli'n cael eu diwallu.

**Gofynnodd y Post Brenhinol am amserlenni mwy penodol yn hytrach na nodi chwarteri ar gyfer datganiad Ofcom ar ddiwygio Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Yn ogystal â galw ar Ofcom i weithredu'n gyflymach wrth ddiwygio, gofynnodd hefyd am ragor o fanylion a gwybodaeth am y diwygiad megis Cam 2 a gafodd ei hepgor o'r ymgynghoriad ac sydd, yn ei farn ef, yn hanfodol i'r gwaith.**

Mae Adran 9 ein dogfen ymgynghori ddiweddaraf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau nesaf a'r gwaith arall ar ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Rydym yn egluro ein bod yn parhau i weithio ar feysydd fel ansawdd gwasanaeth, fforddiadwyedd a phrisiau, yn ogystal â'n rhaglen ôl-fonitro barhaus. Nid yw'n bosibl i ni roi amserlenni mwy penodol ar gyfer y datganiad ar ddiwygio'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer yr ymatebion i'n hymgynghoriad.

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

**Mae Liberty Global wedi dangos cefnogaeth i waith parhaus Ofcom ar ddeallusrwydd artiffisial.**

Rydym yn falch o nodi ymateb cadarnhaol Liberty Global i'n Dull Strategol o Ymdrin â Deallusrwydd Artiffisial 2024/25. Rydym wedi parhau â'n gwaith ar ddeallusrwydd artiffisial a byddwn yn

cyhoeddi'r fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r gwaith arfaethedig ar ddeallusrwydd artiffisial eleni a'n dull gweithredu.

# 2. Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi

## Effaith y BBC ar gystadleuaeth

**Fe wnaeth News Media Association annog Ofcom i osod cyfyngiadau priodol ar wefannau newyddion y BBC er mwyn sicrhau digon o gystadleuaeth yn ecosystem cyfryngau'r DU. Awgrymodd News Media Association hefyd nad yw Ofcom yn llwyr gydnabod beth yw maint effaith arlwy newyddion ar-lein y BBC a'i ganlyniadau o ran cystadleuaeth.**

**Dywedodd Better Media fod yn rhaid i ddull gweithredu Ofcom fynd i'r afael â rhwystrau systemig sy'n atal darparwyr cyfryngau annibynnol, llai rhag ffynnu yn yr amgylchedd cystadleuol.**

Rydym yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae'r BBC a sefydliadau cyfryngau lleol yn ei wneud i gymdeithas yn y DU ac rydym wedi tynnu sylw at hyn yn ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol (LMR) a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r BBC yn rhwym wrth ofynion i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd lleol, ac wrth wneud hynny bydd angen iddo addasu wrth i arferion cynulleidfaoedd newid. Yn ein hadolygiad, ni welsom dystiolaeth sylweddol bod newidiadau i newyddion ar-lein lleol y BBC wedi effeithio ar lefelau gwylio newyddion lleol ar-lein sy'n cael ei ddarparu'n fasnachol. Mae ein hadolygiad yn nodi'n fanwl yr amgylchiadau heriol sy'n wynebu darpariaeth gan gyfryngau lleol, ac rydym yn gwerthfawrogi'r potensial i wasanaethau'r BBC gefnogi neu atal newyddion lleol masnachol. Fe wnaethom amlinellu, o'r flwyddyn yma ymlaen, y byddwn yn rhoi diweddariad blynyddol o'n safbwyntiau ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau newyddion lleol yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC.

Yn unol â'n dyletswyddau o dan Siarter a Chytundeb y BBC, byddwn hefyd yn parhau i fonitro perfformiad y BBC ac yn cynnal unrhyw asesiadau perthnasol ar gystadleuaeth os yw'r BBC yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'w wasanaethau newyddion ar-lein lleol.

Bydd ein Hadolygiad diweddaraf o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSM) yn bwrw ymlaen hefyd â llawer o'r materion sy'n gysylltiedig â newyddion rydym wedi'u nodi yn yr adolygiad o gyfryngau lleol. Bydd rhagor o waith hefyd yn cynnwys comisiynu ymchwil i ddiweddaru ein harolwg o agweddau cynulleidfaoedd newyddion lleol, a gynhaliwyd am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2023.

## Amrywiaeth mewn darlledu yn y DU

**Mynegodd Llywodraeth yr Alban bryderon ynghylch y risg bod llai o benodoldeb rhanbarthol mewn darlledu, ac mae'n poeni am y newidiadau i drwydded y BBC o ran ei ddarpariaeth newyddion yn yr Alban.**

**Awgrymodd Llywodraeth yr Alban hefyd y gallai'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ac Ofcom wneud mwy i gefnogi cynyrchiadau o'r Alban, a gweithwyr proffesiynol ym maes sgrin a darlledu yn yr Alban. Dywedodd y byddai'n awyddus i weld cynlluniau ar gyfer gwella amrywiaeth y sector**

**creadigol yn yr Alban yn cael eu nodi'n glir. Yn yr un modd, awgrymodd Llywodraeth Cymru fod cyfle i fynd i'r afael â phryderon ynghylch y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru ac amrywiaeth y cynnwys sy'n cael ei gomisiynu.**

**Byddai Llywodraeth yr Alban hefyd yn croesawu sylw llawer ehangach yn y Cynllun Gwaith i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd yn yr ystyriaeth a roddir i'r Aeleg o'i gymharu â'r Gymraeg. Dywedodd Bòrd na Gàidhlig hefyd ei bod yn bryd i Ofcom adolygu cyfryngau yn yr iaith Aeleg.**

**Awgrymodd Better Media fod y fframweithiau presennol i fonitro amrywiaeth yn aml yn anwybyddu cyfraniadau cyfryngau cymunedol a gweithwyr llawrydd. Awgrymodd Better Media hefyd nad yw polisïau presennol Ofcom yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion cyfryngau penodol ar gyfer rhanbarthau datganoledig, a bod perygl y bydd hyn yn arwain at ddefnyddio un dull i bawb, ac y dylai gwaith rheoleiddio cyfryngau adlewyrchu hunaniaeth, ieithoedd a blaenoriaethau unigryw pob ardal ddatganoledig.**

Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol a bod gwaith rheoleiddio'r cyfryngau yn adlewyrchu hunaniaeth, ieithoedd a blaenoriaethau penodol pob ardal, mae gennym swyddfeydd a thimau penodol ym mhob gwlad. Ar ben hynny, byddwn yn cael cyngor gan Bwyllgorau Cynghori'r Gwledydd ar gyfer pob gwlad ac yn ymgysylltu â chyrff defnyddwyr yn ystod ein cyfnodau ymgynghori i ddeall eu safbwyntiau, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu adlewyrchu amrywiaeth ranbarthol yn effeithiol.

Fis Awst diwethaf, fe wnaethom gymeradwyo cais y BBC i newid faint o newyddion mae'n ei ddarparu ar sianel BBC Scotland. Yn ogystal â'r amodau adrodd presennol, rydym yn nodi bod yn rhaid i'r BBC barhau i egluro sut mae'n darparu ar gyfer cynulleidfaoedd yn yr Alban ac y byddem yn monitro ei berfformiad. Rydym yn disgwyl adrodd ar hyn yn Adroddiad Blynyddol y BBC eleni.

Mae gan Drwydded Weithredu'r BBC amodau penodol sy'n mynnu bod y BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru a'r Alban, gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau Cymraeg a Gaeleg, ac mae S4C fel sianel Gymraeg yn rhwym wrth rwymedigaethau.

Fel y nodwyd yn ein [Hadolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus (2019-23)](), rydym bob amser wedi bod yn glir bod gweithlu amrywiol yn arwain at gynrychioli a phortreadu gwell ar y sgrin ac yn helpu i greu cynnwys sy'n siarad yn ddilys â phob cynulleidfa. Fe wnaethom nodi hefyd fod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi symud mwy o'u cynyrchiadau ar draws y DU, a bod sector sgrin yr Alban wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gofynion o ran tryloywder yn y Drwydded Weithredu yn mynnu bod y BBC yn cyhoeddi'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd ym mhob un o'r gwledydd bob blwyddyn. Ar ben hynny, mae gan y BBC a Channel 4 rwymedigaethau penodol i gefnogi datblygiad y sector creadigol, ac maen nhw wedi gwneud ymrwymiadau sylweddol i gefnogi talent a sgiliau yn eu sefydliadau eu hunain ac yn y cwmnïau cynhyrchu ar draws y DU. Mae Rhan 2 yr adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i edrych ar beth arall y gellid ei wneud i sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro cyflwr y sector sgrin ym mhob un o'r gwledydd – sydd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf – yn ogystal â sut mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mynd ati'n barhaus i gyflawni ein gofynion rheoleiddio, fel y cwotâu Gwnaed y Tu Allan i Lundain, rydym yn adrodd arnyn nhw bob blwyddyn.

Er ein bod yn cydnabod yn llwyr gyfraniadau cyfryngau cymunedol a gweithwyr llawrydd i greu sector amrywiol, mae ein dyletswyddau statudol yn ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal yng ngweithluoedd y darlledwyr mwy. O bryd i'w gilydd, rydym wedi gofyn i ddarlledwyr llai, gan

gynnwys cyfryngau cymunedol, roi data am amrywiaeth yn wirfoddol, ac rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill fel y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol y mae eu system Diamond yn monitro amrywiaeth gweithwyr llawrydd. Rydym hefyd yn gofyn nawr am ddata ar amrywiaeth fesul gwlad/rhanbarth, i wneud yn siŵr ein bod yn deall ac yn tracio tangynrychiolaeth ar draws y DU.

## Hygyrchedd

**Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol Pobl Fyddar (NADP) ei bod yn galonogol gweld bod Ofcom yn bwriadu rheoleiddio hygyrchedd cynnwys fideo ar-alw. Hoffa'r Gymdeithas hon weld mwy o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod mynediad ar gael ar bob llwyfan a chyfrwng.**

**Dywedodd hefyd ei fod yn credu bod technoleg wedi datblygu'n ddigonol y gellid rhoi capsiynau ar raglenni radio ac y byddai'n croesawu trafodaeth ar hyn gydag Ofcom a darparwyr.**

**Mynegodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl bryderon nad yw gwaith Ofcom yn cynnwys rheoleiddio dyfeisiau.**

Mae diwygiadau Deddf y Cyfryngau i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau ar-alw yn cynnwys gofynion newydd ar gyfer hygyrchedd rhai gwasanaethau fideo ar-alw. Wrth weithredu'r gofynion hyn, mae Ofcom yn glir ein bod am weld profiadau cyson i gynulleidfaoedd anabl ar draws cynifer o lwyfannau â phosibl. Byddwn yn ymgynghori ynghylch sut bydd y gofynion cwota ar gyfer is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain yn gweithio. Ar gyfer y BBC, rydym wedi nodi pam nad ydym wedi cyflwyno canllawiau ar hygyrchedd radio hyd yma. Ni allwn fynnu bod darlledwyr eraill yn darparu isdeitlau radio gan nad yw hyn o fewn cwmpas y gofynion deddfwriaethol presennol. Byddai hyn yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd gan y Senedd Brydeinig.

Rydym wedi bod yn dilyn datblygiadau technegol i sicrhau ein bod yn gwneud argymhellion priodol yn ein canllawiau 'arferion gorau' ar hygyrchedd. Roeddem yn falch o weld bod y BBC wedi bod yn treialu isdeitlau a gynhyrchir yn awtomatig ar gyfer radio. Byddem yn croesawu rhagor o drafodaeth yn y maes hwn, gan gynnwys drwy ein fforwm hygyrchedd y mae grwpiau defnyddwyr, darlledwyr, darparwyr fideo ar-alw a gweithredwyr llwyfannau yn ei fynychu.

## Diogelu Rhyddid Mynegiant

**Cawsom 61 o ymatebion, gyda 50 ohonyn nhw yn union yr un fath, yn mynegi y dylai diogelu rhyddid mynegiant fod yn brif flaenoriaeth i Ofcom ar gyfer 2025/26. Fe wnaethon nhw ddweud hefyd fod darparwyr cyfryngau newydd yn cael eu trin yn annheg, ac y dylai Ofcom gymryd camau i roi terfyn ar hyn.**

Mae diogelu rhyddid mynegiant yn ganolog i rôl Ofcom fel rheoleiddiwr safonau darlledu'r DU. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, rhaid i Ofcom bennu safonau darlledu sy'n ymddangos orau iddo er mwyn sicrhau'r amcanion safonau amrywiol a bennir gan y Senedd Brydeinig ac, wrth wneud hynny, ystyried pa mor fanteisiol yw sicrhau bod rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglenni yn parhau i fod yn annibynnol. Mae Cod Darlledu Ofcom yn cael ei ddrafftio a'i gymhwyso, gan ystyried Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hyn yn darparu ar gyfer hawliau'r darlledwr a'r gynulleidfa i ryddid mynegiant, sy'n cynnwys yr hawl i gael barn ac i dderbyn a rhannu gwybodaeth a syniadau heb ymyrraeth ddiangen gan awdurdod cyhoeddus. Mae hyn yn golygu bod

Ofcom yn ystyried hawliau Erthygl 10 i ddarlledwyr a chynulleidfaoedd yn ofalus bob tro mae'n defnyddio'r Cod gyda chynnwys a ddarlledir, a dim ond pan fydd cyfyngiadau yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur y bydd y cyfyngiadau hynny'n cael eu gosod.

## Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus

**Fe wnaeth nifer o randdeiliaid sylwadau ar yr adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Mynegodd Pwyllgor Cynghori'r Alban bryder ynghylch a yw'r adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a'r dirwedd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn addas i'r diben, gan gyfeirio at effaith deallusrwydd artiffisial ar y sector, cynhyrchu yn yr Alban a chynulleidfaoedd yr Alban. Tynnodd sylw hefyd at eiriad amwys yr heriau a wynebir gan yr Alban o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a gofynnodd am fwy o eglurder ynghylch y materion hyn.**

**Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith ei bod yn rhaid ystyried yr angen i gynnwys o Gymru fod yn amlwg ac yn weledol, yn ogystal â dealltwriaeth o amgylchiadau unigryw Cymru, wrth i'r defnydd o wasanaethau ar-alw a gwasanaethau fideo ar-alw esblygu. Dywedodd hefyd y byddai'n awyddus i wybod sut mae anghenion ac amgylchiadau penodol cynulleidfaoedd Cymru yn cael eu hystyried o ran camwybodaeth a thwyllwybodaeth a'r newid mewn cyd-destun ar gyfer darparu newyddion.**

**Dywedodd Better Media y dylai Ofcom ystyried y bygythiadau i dirwedd cyfryngau'r DU gan lwyfannau cyfryngau rhyngwladol oherwydd eu potensial i danseilio amrywiaeth cyfryngau lleol, ymgysylltiad â chymunedau, ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Awgrymodd fod integreiddio cyfryngau cymunedol i'r ecosystem ehangach yn cynnig cyfle i feithrin ymddiriedaeth eto a meithrin proses o greu cynnwys amrywiol sydd wedi'i wreiddio'n lleol.**

Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom gyhoeddi adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus o 2019-2023. Roedd hyn yn nodi, er gwaethaf yr heriau sylweddol roedd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'u hwynebu dros y pum mlynedd diwethaf, eu bod yn cyflawni ar gyfer cynulleidfaoedd y DU. Fe wnaethom amlinellu hefyd yr heriau a'r cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus ac ystyried y newidiadau sylweddol yn arferion gwylio cynulleidfaoedd. Roedd y rhain yn cynnwys yr anhawster wrth ddenu cynulleidfaoedd i gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar-lein (ac ystyried y cyfoeth o gynnwys sydd ar gael ar lwyfannau a ffrydwyr byd-eang) ac, yn benodol, cyrraedd rhai grwpiau cynulleidfa (fel plant a phobl ifanc) ac effaith bosibl hyn ar eu cynaliadwyedd yn y dyfodol. Fe wnaethom dynnu sylw hefyd at ba mor anodd yw hi i gynulleidfaoedd ddod o hyd i newyddion cywir o ansawdd uchel maen nhw'n ymddiried ynddo ar-lein – sy'n arbennig o bwysig i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth (a allai gael ei waethygu gan ddatblygiadau mewn deallusrwydd artiffisial). Ar ben hynny, roeddem yn bryderus y bydd yr heriau ariannol sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau, a nodwyd eu bod yn ei chael hi'n anodd gwneud arian o gynnwys ar-lein.

Rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid (gan gynnwys yn y gwledydd) ar yr heriau hyn a beth allai'r atebion posibl fod i fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau ar sut mae cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth o gynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn ystod haf 2025. Bydd hyn yn cynnwys beth y gellid ei wneud i sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gael ei ddarparu sy'n cysylltu â phob cynulleidfa ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth y DU gyfan. Byddwn hefyd yn nodi ein safbwyntiau ar sut gall darlledwyr helpu i fynd i'r afael â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth a gwella ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Yn ogystal â'n

hasesiad o'r cyfleoedd a'r risgiau y mae deallusrwydd artiffisial yn eu cyflwyno i'r sector cyfryngau yn gyffredinol a darparu newyddion dibynadwy a chywir yn benodol.

Ar ben hynny, rydym yn bwrw ymlaen â'n gwaith i weithredu darpariaethau'r Ddeddf Cyfryngau a fydd yn mynnu bod llwyfannau teledu cysylltiedig yn sicrhau bod apiau teledu a chynnwys gwasanaeth cyhoeddus y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus – gan gynnwys ap Clic S4C – ar gael, a'u bod yn amlwg ac yn hygyrch i gynulleidfaoedd ledled y DU. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2025 a 2026.

## Eiddo deallusol

**Awgrymodd News Media Association fod angen fframwaith cadarn ar gyfer hawlfraint yn y sectorau creadigol a thechnoleg sy'n gwarchod hawliau unigryw deiliaid hawliau er mwyn rheoli eu gwaith ac amddiffyn rhag camddefnydd.**

Rydym yn cydnabod pa mor gryf yw'r pryderon ynghylch hawlfraint, yn enwedig o ran datblygiad deallusrwydd artiffisial. Er bod mater penodol hawlfraint y tu allan i'n cylch gwaith, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill a Llywodraeth y DU i sicrhau bod y sector creadigol mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd newydd a'i fod yn cael ei ddiogelu rhag risgiau gormodol.

## Rheoleiddio radio masnachol

**Awgrymodd Better Media fod y fframwaith presennol i gael mynediad at sbectrwm radio a ddarlledir yn ffafrio darparwyr mawr yn anghymesur.**

**Mynegodd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ddiddordeb mewn dadreoleiddio radio ac, yn benodol, beth allai hyn ei olygu i newyddion lleol yng Ngogledd Iwerddon.**

Nid ydym yn cytuno bod Ofcom wedi ffafrio darparwyr mawr yn ei waith ar drwyddedu radio. Nid oes unrhyw drwyddedau radio masnachol analog lleol newydd wedi bod ers 2016, a chafodd y trwyddedau amlblecs radio lleol diweddaraf eu hysbysebu yn 2019. Yn ystod yr wyth mlynedd ers 2016, rydym wedi trwyddedu 73 o wasanaethau radio cymunedol analog newydd ac wedi hwyluso gwell darpariaeth ar gyfer 187 o orsafoedd yn ogystal â chwblhau dadansoddiad mewn perthynas â symud nifer o safleoedd ar gyfer gwasanaethau cymunedol. Ar ben hynny, rydym hyd yma wedi dyfarnu 129 o drwyddedau amlblecs radio ar raddfa fach, ac mae hyn wedi galluogi bron i 300 o orsafoedd radio llai, gan gynnwys llawer sy'n darparu ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig a chymunedau 'llawr gwlad', i ddarlledu ar DAB.

Fel rhan o Ddeddf Cyfryngau 2024, gwnaeth Senedd y DU nifer o newidiadau dadreoleiddio i'r drefn statudol ar gyfer gwasanaethau radio masnachol, gan adlewyrchu newidiadau yn y farchnad ers y darn mawr diwethaf o ddeddfwriaeth cyfryngau. Un agwedd ar hyn yw nad yw'n ofynnol mwyach i weithredwyr gyflawni ymrwymiadau rhaglennu a wnaed adeg y cais, yn aml dros ugain mlynedd yn ôl. Mae hyn yn golygu na all Ofcom fynnu mwyach bod trwyddedeion yn darlledu mathau penodol o raglenni llafar neu gerddoriaeth, er y bydd yn rhaid i orsafoedd ddarlledu newyddion a gwybodaeth leol yn rheolaidd. Mae gofyniad newydd hefyd bod yr holl newyddion lleol neu rywfaint ohono yn cael ei "gasglu'n lleol". Byddwn yn ymgynghori cyn bo hir ar sut rydym yn bwriadu gweithredu'r fframwaith newydd hwn, ac edrychwn ymlaen at gael safbwyntiau ar ein cynigion o bob rhan o'r DU.

## DAB ar raddfa fach

**Fe wnaeth Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU annog Ofcom i gwblhau rownd 8 DAB ar raddfa fach cyn diwedd 2025, er mwyn i Ofcom allu blaenoriaethu gwaith arall ar draws radio a ddarlledir. Awgrymodd hefyd y dylid cael cyfnod o bwyso a mesur ynghylch DAB ar raddfa fach, a dylai Ofcom alluogi'r rowndiau diwethaf i gael eu lansio cyn unrhyw waith ar ddatblygu DAB ar raddfa fach ymhellach.**

**Galwodd Better Media ar Ofcom i ddyrannu adnoddau ychwanegol er mwyn gallu cyflymu'r broses o gwblhau trwyddedau amlblecs DAB ar raddfa fach, gan alw hefyd ar Ofcom i gyhoeddi mapiau darpariaeth amlblecs amser real a sicrhau tryloywder gyda'r prisio ar gyfer darlledwyr ar raddfa fach.**

Cafodd ein cynlluniau trwyddedu DAB ar raddfa fach eu nodi yn ein hadroddiad cynnydd DAB ar raddfa fach ym mis Hydref 2024.

## Radio cymunedol

**Tynnodd Coast Community Radio sylw at y costau uchel sy'n gysylltiedig â darlledu ac awgrymodd y gallai'r costau hyn amddifadu cymunedau rhag cael eu gorsaf radio eu hunain. Awgrymodd fod Ofcom yn cyfrannu at ddiffyg radio lleol yng Nghymru drwy gyflwyno DAB ar Raddfa Fach yn hytrach na chyflwyno trwyddedau analog gan greu anfanteision i rai neu eu heithrio, ac y dylai Ofcom gynnwys hysbysebu trwyddedau radio cymunedol ar FM yn y Cynllun Gwaith.**

**Fe wnaeth y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol ofyn i Ofcom barhau i hysbysebu amleddau FM newydd sydd am ddim mewn cymunedau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol.**

**Gofynnodd Rutland a Stamford Sound i Ofcom drwyddedu gwasanaethau FM newydd mewn ardaloedd addas ar ôl i'r rhaglen drwyddedu DAB ar raddfa fach ddod i ben. Awgrymodd hefyd y dylai gorsafoedd radio allu darlledu ar FM, yn ogystal â llwyfannau presennol DAB ar raddfa fach ac ar-lein.**

**Dywedodd Banbury FM fod Ofcom yn parhau i wrthod ymgeiswyr radio FM newydd ac nid yw'n gwneud unrhyw ymchwil i weld pam mae gostyngiad yn y nifer sy'n gwrando ar radio FM. Galwodd ar Ofcom i gynnwys ymrwymiad i ragor o drwyddedu analog a fyddai'n caniatáu i Banbury gael ei orsaf radio FM leol drwyddedig newydd ei hun. Awgrymodd hefyd nad oes mwy nag un darlledwr lleol sy'n ariannol hyfyw yn y farchnad mewn llawer o ardaloedd, felly nid yw'r capasiti ychwanegol a gynigir gan DAB ar raddfa fach yn golygu dim.**

**Dywedodd Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU (UKCRN) ei fod yn dymuno parhau i lobïo dros ddatblygu a thrwyddedu Radio Cymunedol Analog yn y dyfodol ochr yn ochr â Better Media (a gyfeiriodd hefyd at y posibilrwydd o ystyried proses drwyddedu dryloyw ar-alw) a rhanddeiliad arall a oedd yn dymuno i'w enw aros yn gyfrinachol.**

**Dywedodd Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU hefyd fod angen gwneud rhagor o ymchwil fanylach i arferion gwrando a dewisiadau cynulleidfaoedd radio cymunedol, ac awgrymodd nad yw'r data presennol ar gyfer y diwydiant yn mesur yn llawn wir ddarlun yr ymddygiad o ran defnyddio radio.**

**Mynegodd un sefydliad radio lleol ar gyfer cymuned wledig bryder ynghylch diffyg plwraliaeth radio ers i'r orsaf radio gymunedol gau.**

**Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at bwysigrwydd radio Cymraeg a radio lleol.**

Mae Ofcom yn cydnabod y manteision sylweddol a roddir i wrandawyr ledled y DU yn sgil presenoldeb parhaus gwasanaethau radio cymunedol a'u manteision cymdeithasol i'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Mae darparu'r manteision hyn yn parhau i dyfu gydag amrywiaeth o wasanaethau newydd i'r farchnad yn cael eu rhoi ar waith ar lwyfan DAB ar raddfa fach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhywfaint o alw am fwy o drwyddedu analog, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu a/neu ardaloedd gwledig lle mae'n anoddach sicrhau darpariaeth DAB ar raddfa fach mewn ffordd gynaliadwy. Yn ein [hadroddiad cynnydd DAB ar raddfa fach] a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024, fe wnaethom gydnabod y galw hwn a chadarnhau mai ein blaenoriaethau o hyd yw canolbwyntio ar rowndiau terfynol y rhaglen DAB ar raddfa fach cyn ystyried beth sy'n dod nesaf yn unol â'n dyletswyddau a'n swyddogaethau, yn ogystal ag amodau'r farchnad. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y broses hon drwy ymgynghoriad, a byddwn yn rhoi gwybod am yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn ar ôl i ni gael y ceisiadau ar gyfer Rownd 7.

Mae Ofcom wedi comisiynu ymchwil sy'n canolbwyntio ar greu fframwaith a phecyn cymorth y gall y sector radio cymunedol ei ddefnyddio i ddangos a/neu wella'r manteision cymdeithasol maen nhw'n eu darparu i'w cymunedau. Bwriad hyn yw helpu gwasanaethau gyda cheisiadau am gyllid yn y dyfodol a denu gwirfoddolwyr i gefnogi cynaliadwyedd parhaus gwasanaethau unigol. Rydym yn nodi'r pwynt a wnaed gan UKCRN ynghylch ei alwad am ymchwil ychwanegol i arferion gwrando cynulleidfaoedd radio cymunedol. Byddwn yn ystyried hyn yn y dyfodol os byddwn yn penderfynu comisiynu unrhyw ymchwil bellach sy'n canolbwyntio ar y sector radio cymunedol.

Mae Ofcom yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau lleol yng Nghymru i helpu i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwybodaeth leol a phresenoldeb parhaus cynnwys sy'n cael ei ddarparu yn y Gymraeg. O'r naw gwasanaeth analog radio cymunedol yng Nghymru, mae wyth yn parhau i fod ag ymrwymiad i ddarlledu rhywfaint o'u cynnwys yn Gymraeg, gyda'r ddarpariaeth hon yn cael ei hymestyn drwy gyflwyno DAB ar raddfa fach.

## Fforddiadwyedd

**Awgrymodd y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol y dylai Ofcom gefnogi radio cymunedol drwy sicrhau bod rhanddeiliaid masnachol sy'n gweithio gyda thrwyddedeion radio cymunedol yn cadw eu costau'n isel/fforddiadwy.**

Nodwn y cais am gefnogaeth gan y Gymdeithas Cyfryngau Cymunedol yn y mater hwn. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chyrff masnach y sector radio cymunedol ac yn trafod lles ariannol cyfunol y sector.

# 3. Byw bywyd mwy diogel ar-lein

## Blaenoriaeth Ofcom i Fyw bywyd mwy diogel ar-lein

**Awgrymodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein fod y Cynllun Gwaith yn canolbwyntio gormod ar y broses ar gyfer y drefn diogelwch ar-lein.**

Mae Cynllun Gwaith Ofcom yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau ar gyfer y flwyddyn i ddod ar gyfer y sefydliad cyfan. Mae'n cyffwrdd â phob rhan o gylch gwaith rheoleiddio Ofcom, gan gynnwys telegyfathrebiadau, sbectrwm, post, darlledu, a diogelwch ar-lein. Ar gyfer cynigion penodol ar draws ein cylch gwaith, rydym yn cynnal ymgynghoriadau ac yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o ffyrdd eraill.

I gael rhagor o fanylion am ganlyniadau disgwyliedig Ofcom ar gyfer y flaenoriaeth 'Byw bywyd mwy diogel ar-lein', edrychwch ar Gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein: diweddariad cynnydd.

**Fe wnaeth Online Dating and Discovery Association fynegi ei gefnogaeth i'r canlyniadau y mae Ofcom yn dymuno eu gweld i ddefnyddwyr. Roedd o'r farn y byddai'n rhoi mwy o ffydd i ddefnyddwyr ac yn cynnig mwy o dryloywder o ran y ffordd mae gwasanaethau ar-lein yn cadw pobl yn ddiogel ar-lein. Ond byddai'n hoffi i Ofcom wneud yn siŵr nad yw rheoleiddio'n anghymesur ar gwmnïau llai ac roedd am weld dull gweithredu sy'n fwy seiliedig ar risg sy'n caniatáu hyblygrwydd o ran sut mae gwasanaethau'n mynd i'r afael â risgiau.**

Mae ein hymchwil yn dangos bod dros 100,000 o wasanaethau ar-lein yn debygol o fod o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, gan amrywio o gwmnïau mawr iawn i gwmnïau bach. Rydym yn gwybod bod rheoliadau newydd yn gallu creu ansicrwydd, yn enwedig i sefydliadau bach sy'n cael eu rhedeg yn rhan-amser neu'n wirfoddol efallai. Rydym wedi datblygu offer digidol i gefnogi sefydliadau i ddeall y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a lleihau'r baich ar gwmnïau llai. Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau ac yn darparu cynnwys ar-lein i helpu gwasanaethau llai i ddeall eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.

Rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth o fewn y cwmpas – ni waeth beth yw ei faint – gymryd camau i gydymffurfio â'r Ddeddf. Serch hynny, mae dull Ofcom o reoleiddio yn seiliedig ar gymesuredd, gan ystyried maint a lefelau risg gwasanaeth. Os yw sefydliad bach wedi cynnal asesiad risg addas a digonol ac wedi penderfynu, gyda rheswm da, bod y risgiau y mae'n eu hwynebu yn isel, mae'r rhan fwyaf o'r mesurau rydym wedi'u hargymell yn ganlyniad uniongyrchol i ofynion penodol yn y Ddeddf, a dim ond hyn a hyn o ddisgresiwn sydd gennym yn hyn o beth. Ychydig iawn o fesurau rydym wedi'u gosod y tu hwnt i hynny, a disgwylir i gostau cyfun y meysydd lle mae gennym ddisgresiwn fod yn isel iawn.

## Datganiad Blaenoriaethau Strategol Drafft y Llywodraeth ar gyfer diogelwch ar-lein

**Tynnodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein sylw at y ffaith y dylai Ofcom ymgorffori'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol drafft yn ei Gynllun Gwaith ac y dylai gyhoeddi ei ymateb i'r ymgynghoriad i'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ochr yn ochr â'r datganiad terfynol.**

**Mynegodd Which? siom nad yw'r Cynllun Gwaith a gynigir yn cyfeirio at sut mae Ofcom yn bwriadu defnyddio'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein i fynd i'r afael â thwyll ar-lein, a thynnodd sylw at y ffaith bod y Datganiad Blaenoriaethau Strategol drafft yn cynnwys uchelgais ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn twyll ar-lein yn y gwasanaethau sydd yn y cwmpas.**

Nid yw'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol wedi'i ddynodi'n ffurfiol eto. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr ac mae'r Llywodraeth wrthi'n cwblhau'r ddogfen. Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn yn cyflwyno'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol gerbron y Senedd Brydeinig.

Ar ôl i'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol terfynol gael ei ddynodi'n ffurfiol, bydd angen i ni roi sylw iddo wrth gyflawni ein swyddogaethau diogelwch ar-lein. Bydd Ofcom yn cadarnhau sut bydd yn ystyried y Datganiad Blaenoriaethau Strategol ar ôl i'r broses Seneddol ddod i ben yn nes ymlaen yn y gwanwyn.

## Diogelwch drwy ddylunio

**Awgrymodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein y dylid ychwanegu diogelwch drwy ddylunio yn y Cynllun Gwaith terfynol.**

**Tynnodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl sylw at yr angen i ddefnyddio egwyddorion dylunio cyffredinol i sicrhau bod cyfathrebiadau'n cael eu gwasanaethu'n deg i'r 'defnyddiwr cyffredin'. Mae hyn yn cynnwys dylunio ar sail gwybodaeth i gefnogi'r rheini sydd ag anghenion niwroamrywiaeth.**

Un o amcanion craidd y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yw sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel drwy ddyluniad, hynny yw, bod cwmnïau'n ymgorffori ystyriaethau diogelwch yn union ddyluniad eu gwasanaethau wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau ar gynnyrch, nodweddion, a strategaethau masnachol newydd. Gwelir hyn yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r Datganiad Blaenoriaethau Strategol drafft drwy:

- fwriad y Ddeddf i wasanaethau fod yn 'ddiogel drwy ddylunio',
- canolbwyntio ar systemau a phrosesau,
- y dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar risg,
- cyfeirio at lywodraethu ac atebolrwydd, a
- rôl y dyletswyddau diogelwch (drwy fesurau codau).

Mae diogelwch yn y cam dylunio yn llinyn aur sy'n rhedeg drwy ein dull rheoleiddio a chynnyrch rheoleiddio – gan gynnwys yr asesiadau risg, codau, prosesau casglu gwybodaeth a mwy. Mae'r ffordd y bydd y cynnyrch rheoleiddio unigol hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn dibynnu ar sut mae Ofcom yn gallu annog gwasanaethau i fabwysiadu dull diogelwch wrth ddylunio.

Rydym yn disgwyl i'r holl wasanaethau sydd o fewn y cwmpas roi blaenoriaeth i ddiogelwch defnyddwyr, mynd i'r afael â risgiau i ddefnyddwyr, a dynodi pobl ar lefel uwch i fod yn atebol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n asesu, yn rheoli ac yn cofnodi'r risg o niwed i ddefnyddwyr.

## Gweithgareddau gorfodi

**Roedd Yoti yn croesawu 'symud tuag at weithredu a gorfodi' y drefn diogelwch ar-lein. Fodd bynnag, galwodd hefyd am amserlenni mwy pendant ar gyfer camau gweithredu Ofcom a'r defnydd o'i bwerau gorfodi a mwy o dryloywder ynghylch gwaith goruchwylio Ofcom gyda gwasanaethau.**

**Fe wnaeth TechUK annog Ofcom i fod yn agored ac yn dryloyw drwy gydol y broses orfodi. Awgrymodd y gallai fod rôl i arbenigwyr annibynnol ac archwilwyr allanol gefnogi gwaith Ofcom, er enghraifft, wrth orfodi'r drefn ffioedd a chosbau.**

Fe wnaethom nodi ein dull gweithredu ar gyfer gorfodi cydymffurfedd â'r dyletswyddau newydd wrth iddyn nhw ddod i rym yn ystod 2025 yn Natganiad Niwed Anghyfreithlon Ofcom Rhagfyr 2024 (gweler tudalennau 79-80). Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan i helpu darparwyr i

ddeall dyddiadau pwysig ar gyfer cydymffurfio â'r rheolau newydd. Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi lansio ein bwletin i'r diwydiant ar ddiogelwch ar-lein ac mae hwn yn tynnu sylw at y prif bethau y mae angen i ddarparwyr eu gwybod a'u gwneud dros y misoedd nesaf.

Mae penderfyniadau ynghylch a ddylid cymryd camau gorfodi yn cael eu gwneud fesul achos, ar ôl ystyried ein dyletswyddau statudol a'r holl ffactorau sy'n ymddangos yn berthnasol. Rydym yn disgwyl blaenoriaethu camau gorfodi yn unol â'n fframwaith blaenoriaethu, fel y nodir ym mharagraff 3.9 o'n Canllawiau ar gyfer Gorfodi Diogelwch Ar-lein. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer defnyddio ein pwerau gorfodi o dan y drefn diogelwch ar-lein.

Yn unol â'n hegwyddorion rheoleiddio o ran tryloywder ac atebolrwydd, mae Ofcom yn cyhoeddi gwybodaeth am y camau gorfodi rydym yn eu cymryd ar wahanol gamau yn y broses. Fel y nodir yn ein Canllawiau ar gyfer Gorfodi Diogelwch Ar-lein, mae hyn fel arfer yn cynnwys cyhoeddiad agor achos pan fyddwn yn agor ymchwiliad a diweddariadau ar gerrig milltir pwysig. Pan fyddwn yn canfod achos o dorri amodau, byddwn yn cyhoeddi fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'n penderfyniad cadarnhau, gan gynnwys unrhyw gamau cywiro sydd eu hangen, ar ein gwefan.

Mae gennym hefyd dîm sy'n "goruchwylio" darparwyr gwasanaethau, hynny yw, ymgysylltu'n fwy anffurfiol i sbarduno newid. Bydd goruchwyliaeth (ar y cyd â thimau eraill Ofcom) yn helpu i sicrhau bod gan y darparwyr systemau a phrosesau priodol i sicrhau'r canlyniadau allweddol a fwriedir gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i wneud bywyd yn fwy diogel ar-lein i bobl ledled y DU. Mae ein dyletswyddau o ran datgelu gwybodaeth am fusnesau penodol, yn adran 393 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, yn ein gwahardd rhag datgelu gwybodaeth am yr ymgysylltiad penodol sydd gennym â gwasanaethau rheoledig unigol ac eithrio lle mae 'porth' datgelu yn bodoli.

Er y bydd cyfeiriad at ddefnyddio archwilwyr allanol yn ein datganiad ffioedd a chosbau sydd ar y gweill, rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cael sylw yn bennaf drwy ein rhaglenni goruchwylio a gorfodi.

## Cyhoeddi tystiolaeth

**Gofynnodd Yoti am fwy o dryloywder ynghylch y dystiolaeth a ddefnyddir gan reoleiddwyr sy'n sail i benderfyniadau allweddol.**

**Byddai TechUK yn croesawu cyhoeddi'r dystiolaeth y mae Ofcom wedi'i defnyddio i wneud penderfyniadau, er mwyn arwain at sgyrsiau mwy gwybodus a mwy o dryloywder.**

Fel rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn cydnabod bod tryloywder, a bod yn glir ynghylch y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud a pham, yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth yn y drefn diogelwch ar-lein. Mae hyn eisoes wedi'i wreiddio mewn llawer o'r gwaith rydym yn ei wneud – yn enwedig o ran ein hymgynghoriadau a'n penderfyniadau polisi. Yn gyffredinol, rydym yn ceisio cyhoeddi'r dystiolaeth rydym wedi dibynnu arni yn ein hymgynghoriadau ac wrth wneud penderfyniadau. Byddwn yn golygu gwybodaeth pan na ellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth o dan adran 393(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Wrth symud ymlaen, rydym am barhau i adeiladu ar yr ymdrechion hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys parhau i rannu diweddariadau misol rheolaidd drwy ein cylchlythyr diogelwch ar-lein a defnyddio ein bwletin chwarterol i'r diwydiant i ddarparu diweddariadau allweddol i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Byddwn hefyd yn cyhoeddi diweddariadau strategol ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ein diweddariad diogelwch ar-lein blynyddol a fydd yn nodi'r hyn

rydym wedi'i wneud, yr hyn rydym wedi'i ddysgu a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud. Rhan allweddol o hyn fydd edrych ar le mae'r drefn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ledled y DU a lle mae angen i ni edrych ar gymryd camau pellach i fynd i'r afael â materion penodol.

## Diogelwch menywod a merched ar-lein

**Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn cydnabod bod yn rhaid i Ofcom flaenoriaethu ei ymdrechion ym maes Diogelwch Ar-lein i ddiogelu menywod a merched, ond y byddai'n annog Ofcom i ystyried cymunedau eraill sydd mewn perygl o niwed fel defnyddwyr ar-lein LGBT+.**

**Gofynnodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein pam y cyfeirir at y canllawiau arfaethedig ar amddiffyn menywod a merched fel "canllawiau arferion gorau". Tynnodd sylw at y ffaith nad oes cyfeiriad penodol at addewid Llywodraeth y DU "i haneru trais yn erbyn menywod a merched yn y degawd nesaf" a rôl Ofcom mewn perthynas â hynny. Roedd hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg sôn am ymgysylltu â dioddefwyr na'r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol o niwed ar-lein.**

Mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn mynnu bod Ofcom yn llunio canllawiau sy'n canolbwyntio ar 'gynnwys a gweithgarwch' y mae gan ddarparwyr ddyletswyddau ynddynt, sydd wedi'u nodi yn Rhannau 3 neu 4 o'r Ddeddf, ac sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Ymysg pethau eraill, gall y canllawiau "gynnwys cyngor ac enghreifftiau o arferion gorau" ar gyfer asesu a lleihau'r risg o niwed i fenywod a merched. Mae'r Canllawiau drafft hyn, a gyhoeddwyd gennym er mwyn ymgynghori arnynt ym mis Chwefror 2025, yn cyfuno'r cyfrifoldebau cyfreithiol sydd gan ddarparwyr gwasanaethau nawr i ddiogelu eu defnyddwyr, gydag arferion da arloesol i gyflawni gweledigaeth newydd ac uchelgeisiol ar gyfer diogelwch menywod a merched ar-lein.

Mae'r Canllawiau drafft yn ymdrin â'r ffyrdd niweidiol y mae gwasanaethau ar-lein yn cael eu defnyddio i reoli, i ecsbloetio, i fonitro, i dawelu, i fychanu, i gam-drin ac i fygwth menywod a merched oherwydd eu rhywedd. Rydym wedi nodi yn y Canllawiau drafft bod menywod a merched sydd â nifer o nodweddion gwarchodedig, fel cymunedau LHDTC+ a menywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, yn wynebu niwed ychwanegol. Fel y nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Canllawiau drafft (asesiad dros dro sy'n destun ymgynghori), "gyda'i gilydd, rydym yn disgwyl bod y camau sylfaenol a'r arferion da yn gwella diogelwch ar-lein i bob grŵp, gan ymestyn y tu hwnt i fenywod a merched, sef ffocws penodol yn y Canllawiau drafft, i unigolion eraill sydd â nodweddion gwarchodedig, yn unol â nodau ehangach y Ddeddf.". Yn y Canllawiau drafft, rydym wedi nodi ymrwymiad Llywodraeth y DU i haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn degawd, yn ogystal â chynlluniau Llywodraethau Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Rydym wedi ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau, sefydliadau cymdeithas sifil, ymchwilwyr, goroeswyr a dioddefwyr, sefydliadau technoleg diogelwch, cyrff yn y sector cyhoeddus ac arbenigwyr eraill am y cynigion yn y Canllawiau drafft a sut i fynd â nhw ymhellach. Gwnaethom hefyd groesawu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i siarad am y pwnc hwn mewn digwyddiad mawr a gynhaliwyd gennym ym mis Tachwedd 2024. Rydym yn gobeithio parhau â'r ymgysylltu hwn drwy'r broses ymgynghori wrth i ni gasglu gwybodaeth ychwanegol a thynnu sylw at faterion sy'n dod i'r amlwg.

**Tynnodd Pwyllgor Cynghori'r Alban sylw at yr angen am fwy o eglurder ynghylch yr heriau allweddol yn y cyd-destun datganoledig, mewn meysydd fel dileu trais yn erbyn menywod, ac wrth ystyried newidiadau newydd i ddeddfwriaeth, fel y Bil Casineb at Fenywod.**

Mae tîm yr Alban yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn yr Alban i fynd ati'n rhagweithiol i nodi unrhyw bynciau sy'n fwy perthnasol neu sydd o fwy o ddiddordeb yn yr Alban. Mae hyn yn cynnwys monitro newidiadau deddfwriaethol yn yr Alban, ac mae tîm yr Alban yn barod i gynnig cyngor i randdeiliaid ar y croestoriad rhwng cyfreithiau diogelwch ar-lein yn y cyd-destun datganoledig pan ofynnir am hynny. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth yr Alban ar ein nod ar y cyd o fynd i'r afael â diogelwch menywod a merched ar-lein, sy'n cael ei adlewyrchu ym mlaenoriaethau ein cynllun gwaith ar gyfer 2025/26.

## Sicrwydd Oedran a Dilysu Oedran

**Awgrymodd Yoti a TechUK y dylid cael meincnodau clir ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr â sicrwydd oedran "effeithiol iawn" ac "effeithiol", ac y dylai'r mesurau hyn fod yn unol â safonau ISO Rhan III.**

**Mynegodd Yoti ei farn y dylai Ofcom, yn ogystal â dilysu oedran ar gyfer cynnwys i oedolion, sicrhau bod mesurau sicrwydd oedran effeithiol sy'n diogelu preifatrwydd ar waith ar gyfer defnyddwyr iau sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein prif ffrwd.**

**Awgrymodd Yoti a TechUK fod Ofcom yn cydweithio â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF) i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddulliau sicrhau oedran ar gyfer defnyddwyr 13 oed a hŷn.**

**Roedd Yoti hefyd yn annog Ofcom i ddefnyddio technoleg oruchwylio i fonitro cydymffurfiad, i ganfod diffyg cydymffurfio yn gynnar, ac i symleiddio camau gorfodi.**

**Roedd Yoti yn cefnogi cysylltiad Ofcom â'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN) ond yn nodi nad oedd GOSRN yn rhoi blaenoriaeth i sicrwydd oedran yn ei gyhoeddiad "Cynllun Strategol Tair Blynedd 2025".**

**Roedd TechUK yn credu ei bod yn bwysig i Ofcom gydweithio â'r Swyddfa Gartref wrth baratoi i gynnal gwiriadau dilysu oedran llymach ar gyfer pawb sy'n manwerthu cyllyll.**

Ym mis Ionawr 2025, fe wnaethom gyhoeddi'r Datganiad Sicrwydd Oedran a Mynediad Plant, a oedd yn nodi safbwyntiau terfynol Ofcom ar y cysyniad o sicrwydd oedran effeithiol iawn. Dylai rhanddeiliaid ddarllen y datganiad hwn i gael ymateb Ofcom ar asesu a monitro effeithiolrwydd (paragraffau 3.349-3.356); sut rydym yn ystyried safonau rhyngwladol (paragraff 3.261); a sut rydym yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar sicrwydd oedran (paragraffau 3.286-3.289).

Ym mis Ebrill 2025, byddwn yn cyhoeddi ein Datganiad Amddiffyn Plant, a fydd yn nodi'r ystod lawn o fesurau yn y Codau y bydd disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau i ddefnyddwyr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant eu cymryd er mwyn amddiffyn plant rhag niwed ar-lein, gan gynnwys mesurau sicrhau oedran. Byddwn yn ystyried ac yn mynd i'r afael ag isafswm oedran a grwpiau oedran, gan gynnwys effeithiolrwydd dulliau sicrhau oedran ar gyfer defnyddwyr 13 oed a hŷn, yn ein Datganiad Amddiffyn Plant ym mis Ebrill.

I gael manylion am ddull gweithredu Ofcom ar gyfer gorfodi, dylai rhanddeiliaid edrych ar y Canllawiau ar Orfodi Diogelwch Ar-lein.

Nodwn sylw Yoti am flaenoriaethau GOSRN. Rydym yn falch o gadeirio'r rhwydwaith am yr ail flwyddyn, ar ôl cyhoeddi cynllun strategol tair blynedd (2025-2027) yn ddiweddar ar gyfer y rhwydwaith. Mae hwn yn un o sawl ffora rhyngwladol allweddol lle rydym yn ymgysylltu i hyrwyddo cydlyniaeth ym maes rheoleiddio. Ar draws ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol yn y flwyddyn i ddod,

rydym yn rhagweld y bydd y prif bynciau ffocws yn cynnwys asesu a lliniaru risg, sicrwydd oedran a diogelwch yn fwriadol.

Mae Ofcom yn mynd ati i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, er mwyn cynnal deialog agored, cyfnewid gwybodaeth a sicrhau cysondeb o ran sicrwydd oedran lle bo hynny'n briodol.

## Partneriaethau

**Gofynnodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein am ragor o fanylion am bartneriaid Ofcom a sut bydd Ofcom yn gweithio gyda nhw.**

Rydym yn defnyddio dull wedi'i dargedu i gydweithio a rhannu gwybodaeth â'n partneriaid, er mwyn gallu cyflawni a chael effaith ar y drefn diogelwch ar-lein yn effeithiol a chreu bywyd mwy diogel ar-lein i ddefnyddwyr yn y DU.

Mae hyn yn golygu meithrin perthnasoedd a gwneud y gorau ohonynt, ar yr adeg iawn, i gefnogi ein blaenoriaethau Diogelwch Ar-lein, sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu i gefnogi darpariaeth weithredol, a gwerthuso gwybodaeth a chanlyniadau i fesur effaith a llywio ein blaenoriaethau strategol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ffurfioli ein partneriaethau ymhellach, yn y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn dod â rheoleiddwyr, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, adrannau'r llywodraeth, cymdeithas sifil a'r byd academaidd at ei gilydd, ar wahanol raddau, yn ddwyochrog a thrwy grwpiau aml-asiantaeth, i greu ecosystem gadarn a chryf o sefydliadau sydd wedi'u harfogi'n well i fynd i'r afael â niwed ar-lein.

Mae ein partneriaethau wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi Diogelwch Ar-lein, ond wrth i'r codau ddod i rym, rydym yn eu datblygu ymhellach i lywio'r ddarpariaeth weithredol.

## Cynlluniau ymgysylltu

**Roedd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn argymell bod y cynllun terfynol yn cynnwys cyfeiriad at ddioddefwyr, cynrychiolwyr dioddefwyr a/neu brofiad uniongyrchol er mwyn cyflawni nodau Ofcom yn llawn sef "deall profiadau defnyddwyr ar-lein".**

**Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn cefnogi bwriad Ofcom i weithio'n agosach gydag academyddion a sut bydd hyn yn cyfrannu at bolisïau Ofcom ar gyfer y dyfodol.**

Rydym wedi gweithio'n galed i ddeall yr effaith niweidiol y gall niwed ar-lein ei chael ar unigolion, yn ogystal â'r effaith ehangach ar y teuluoedd a'r cymunedau sy'n dioddef niwed ar-lein. Mae gennym raglen ymchwil sefydledig sy'n helpu i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth bwysig i gefnogi ein gwaith, ond rydym wedi ymgysylltu llai â'r rhai sydd â phrofiad uniongyrchol. Mae hyn yn rhywbeth rydym ni eisiau ei newid a dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd camau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rheini sydd wedi cael profiadau uniongyrchol o niwed ar-lein, i sicrhau bod y persbectif hwn yn cael ei ymgorffori yn ein gwaith polisi datblygu ehangach. Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd o wreiddio'r mathau hyn o arferion ymgysylltu yn ein gwaith ehangach. Mae ymgysylltu â phobl sydd â phrofiadau uniongyrchol o niwed ar-lein yn bwysig oherwydd:

- gallwn ddarparu llwybrau i unigolion gyfrannu at ein gwaith datblygu polisi mewn ffordd ystyrlon a hygyrch;

- gallwn gynnal deialog barhaus y tu allan i'r ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad;
- gallwn ddatblygu polisi sy'n seiliedig ar brofiadau'r rheini sydd wedi profi'r niwed perthnasol, sy'n golygu ei fod yn fwy tebygol o fod o fudd i'r bobl y mae hyn yn effeithio fwyaf arnynt.

Mae ymgysylltu ag academyddion, yn ogystal â grwpiau cymdeithas sifil a chyrff arbenigol, i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar eu harbenigedd hefyd yn agwedd hanfodol ar ein dull o ddatblygu polisi rheoleiddio. Mae Ofcom yn gweithio gydag academyddion mewn sawl ffordd, gan roi cyfleoedd i ni gyfnewid syniadau a'n helpu i gyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys: cefnogi cynigion a phrosiectau, cynnal gweithgorau a phaneli i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein gwaith, cynnal digwyddiadau a chynadleddau, cynnig secondiadau i academyddion sy'n rhan olaf eu gyrfa, cyd-noddi ysgoloriaethau PhD a dilyn egwyddorion data agored i sicrhau bod y data rydym yn ei gasglu a'i greu ar gael i academyddion a'r cyhoedd yn ehangach.

Ar 15 Ebrill 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein hagenda ymchwil gyntaf ar gyfer diogelwch ar-lein. Drwy gyhoeddi hyn, rydym yn gobeithio annog academyddion ac ymchwilwyr sydd â diddordeb i ystyried y ffordd orau o gyflawni ein nodau ymchwil ar y cyd.

## Datrys anghydfodau a chwynion

**Dywedodd The Trust Alliance Group ei fod yn credu y byddai mynediad defnyddwyr at Ddulliau Datrys Anghydfodau Digidol diduedd yn cefnogi'r drefn Diogelwch Ar-lein.**

**Roedd gwaith y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn edrych ar gwynion a systemau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) yn tynnu sylw at ba mor heriol yw hi i fusnesau llai lywio drwy'r sector cyfathrebiadau a sut mae adrodd yn effeithio ar hyder defnyddwyr.**

Dylid cyfeirio cwynion unigol gan ddefnyddwyr at y darparwr ei hun gan mai ef sydd yn y sefyllfa orau i ddatrys problemau. Rydym yn nodi ceisiadau gan randdeiliaid y dylem chwarae rhan yng ngweithdrefnau cwyno darparwyr gwasanaethau, neu gynnig proses apelio annibynnol, ond mae hyn y tu hwnt i gwmpas ein rôl fel y nodir yn y Ddeddf.

Hefyd, nid yw'r Ddeddf yn rhoi pwerau i ni gynnwys argymhellion ar Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod yn y Codau. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol fyddai diwygio'r Ddeddf drwy reoliadau i gynnwys Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod ar ôl ymgynghori ag Ofcom (ac eraill).

Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod Ofcom yn llunio adroddiad sy'n asesu mesurau darparwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau adrodd a chwyno. Fel rhan o'r adroddiad hwnnw, rhaid i Ofcom gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a ddylid gwneud rheoliadau sy'n mynnu bod darparwyr yn sefydlu gweithdrefnau amgen ar gyfer datrys anghydfodau. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu pryd y bydd yr adran yn dechrau.

## Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau (MSOM)

**Dywedodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon y dylai Ofcom hyrwyddo dealltwriaeth o'r drefn diogelwch ar-lein newydd ac ymgysylltu defnyddwyr â'i strategaeth Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau. Awgrymodd Better Media y dylai Ofcom fuddsoddi mewn rhaglenni cenedlaethol i rymuso dinasyddion i ymgysylltu'n feirniadol â chynnwys ar-lein.**

**Roedd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn dadlau nad yw’n glir bod Ofcom yn cymryd eu pwerau estynedig o ddifrif ynghylch ymwybyddiaeth o'r cyfryngau.**

**Roedd Cyngor ar Bopeth yr Alban yn croesawu’r rhaglen Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a’r buddsoddiad cychwynnol, ond mae’n dweud bod angen gwneud mwy i gau’r bwlch digidol, fel rhagor o fuddsoddiad gan Ofcom ac eraill.**

**Roedd TechUK yn annog Ofcom i barhau â’i waith Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau ar gynhwysiad digidol a mentrau addysgol pwysig eraill, fel gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau addysgol a sefydliadau eraill, gan gynnwys y sector technoleg, i helpu i uwchsgilio gweithwyr. Awgrymodd Which? y byddai’n ddefnyddiol gwybod pa waith cynhwysiad digidol pellach roedd Ofcom yn ei wneud.**

**Mae Llywodraeth Cymru yn arbennig o gefnogol i’r gwaith Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau ac mae’n awyddus i hyn gael ei gefnogi a’i ddatblygu ymhellach.**

Mae ein dull gweithredu o ran ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi’i amlinellu yn ein strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o’r cyfryngau. Mae’r strategaeth yn cyfeirio’n benodol at y ffyrdd rydym yn mynd i’r afael â’r dyletswyddau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau sydd wedi’u hamlinellu yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Rydym yn glir iawn na all Ofcom wella sgiliau ymwybyddiaeth y genedl o’r cyfryngau ar ei ben ei hun, ond bod angen i ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fod yn fusnes i bawb. Er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau’n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon, rydym yn bwriadu adeiladu ar y seilwaith cynhwysiad digidol presennol, gan gynnwys drwy gomisiynu Good Things Foundation i gynhyrchu cynnwys newydd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn eu rhaglen Learn My Way, a thrwy gefnogi timau cynhwysiad digidol sy’n gweithio mewn awdurdodau lleol i wreiddio cymorth sgiliau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau yn eu gwaith. Rydym yn gweithio’n benodol gyda chymunedau ym mhob un o wledydd y DU i ddeall “beth sy’n gweithio” fel dull seiliedig ar le o ymdrin ag ymwybyddiaeth o’r cyfryngau a byddwn yn neilltuo amser i rannu’r hyn rydym wedi’i ddysgu dros y ddwy flynedd nesaf.

# 4. Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

## Rheoli sbectrwm a gwasanaeth symudol

**Awgrymodd Liberty Global na ddylai'r sbardun pwysicaf ar gyfer polisi sbectrwm llwyddiannus ganolbwyntio ar gynyddu (arwerthu) enillion, ond yn hytrach mynd ar drywydd set o amcanion cytbwys sy'n canolbwyntio ar fanteision cyffredinol dyrannu sbectrwm.**

**Er mwyn hybu cysylltedd symudol mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu na'u gwasanaethu'n ddigonol, hoffai Llywodraeth Cymru i Ofcom edrych ar rwymedigaethau darpariaeth mewn arwerthiant sbectrwm yn y dyfodol a chymhellion ariannol eraill fel lleihau trafodion arwerthiant neu Ffi Flynyddol y Drwydded (ALF) yn gyfnewid am ymrwymiadau darpariaeth a'r angen i fonitro ymrwymiadau o'r fath. Roedd hefyd yn croesawu manylion gan Ofcom ynghylch sut bydd yn sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn cyflawni eu rhwymedigaethau Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn y dyfodol ac yn gwella darpariaeth symudol y tu hwnt i rwymedigaethau'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Yn yr un modd, gofynnodd Cellnex i Ofcom ystyried trefniadau Ffioedd Blynyddol Trwyddedau arloesol gyda'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg i helpu i sicrhau gwell gwasanaeth symudol yn y DU, er enghraifft drwy ddefnyddio arian Ffioedd Blynyddol Trwyddedau i dalu am ddwysáu'r rhwydwaith drwy strwythur sy'n cynnwys y gadwyn gwerth di-wifr yn ei chyfanrwydd.**

**Roedd Cellnex yn cefnogi cynlluniau Ofcom i ddyfarnu'r sbectrwm mmWave ac mae'n nodi rôl sylweddol yr amleddau hyn yn cefnogi dwysáu rhwydweithiau symudol a mynediad di-wifr sefydlog.**

Ein dyletswydd yw sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau er budd dinasyddion a defnyddwyr yn y DU. Wrth ddylunio arwerthiannau sbectrwm ac wrth bennu ffioedd blynyddol trwyddedau, ein nod yw sianelu grymoedd y farchnad i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddyrannu'n effeithlon. Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o fuddsoddiad i wella cysylltedd symudol mewn ardaloedd gwledig/ardaloedd heb wasanaeth. Gall defnyddio rhwymedigaethau darpariaeth mewn arwerthiannau sbectrwm fod yn ffordd briodol o helpu i sbarduno buddsoddiad o'r fath, ond mae iddo gyfyngiadau. Er enghraifft, daethom i'r casgliad bod rhannu seilwaith yn y rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir wedi galluogi'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol i ymrwymo i ddarpariaeth symudol fwy estynedig nag y gallem fod wedi'i sicrhau drwy rwymedigaethau darpariaeth yn arwerthiant sbectrwm 2018.

Gallem ystyried defnyddio rhwymedigaethau trwydded yn y dyfodol, fel buddsoddi mewn darpariaeth, yn lle neu'n ychwanegol at ffioedd blynyddol trwyddedau. Fodd bynnag, byddai gwneud hynny'n golygu gosod gofynion ar sail dewisiadau polisi yn hytrach na grymoedd y farchnad, a gallai hyn ystumio'r farchnad a gwneud dyrannu effeithlon yn llai tebygol. Rydym yn awgrymu bod y Llywodraeth mewn sefyllfa well i benderfynu a ddylid defnyddio arian cyhoeddus i fynd i'r afael ag amcanion cymdeithasol fel rhoi sylw i ddarpariaeth wael mewn ardaloedd gwledig.

Yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ym mis Rhagfyr 2025 ar yr adolygiad o uno Vodafone/Three, byddwn yn monitro ac yn gorfodi ymrwymiad rhwydwaith yr endidau sydd wedi uno. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom ymgynghori ynghylch diweddaru ffioedd blynyddol ein trwyddedau ar gyfer sbectrwm symudol, a fyddai'n lleihau costau i weithredwyr. Rydym hefyd yn bwriadu cadarnhau, erbyn diwedd 2025, y fframwaith rheoleiddio ar gyfer cysylltedd lloeren yn uniongyrchol i ffonau symudol, a allai ymestyn cysylltedd symudol mewn

ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ba fesurau ychwanegol allai fod yn angenrheidiol i ysgogi rhagor o fuddsoddi mewn seilwaith symudol.

**Argymhellodd Viasat y dylai Ofcom ymatal rhag arwerthu sbectrwm dros 1492 MHz. Roedd hyn am ei fod yn ystyried y bydd gofyn rhoi mesurau cydnawsedd cymhleth ar waith os bydd systemau symudol daearol yn defnyddio unrhyw fand 1492-1518 MHz, er mwyn diogelu ei weithrediadau mewn perthynas â Gwasanaeth Lloeren Symudol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn y Deyrnas Unedig.**

Rydym yn cydnabod pryderon Viasat ynghylch cydfodolaeth ei wasanaeth gyda gwasanaeth symudol cyfagos yn y bloc 1492-1517 MHz. Fe wnaethom ymgynghori ym mis Chwefror 2025 ar ein dull o ddiogelu derbynyddion Viasat.

**Gofynnodd BT i Ofcom ddatblygu map sbectrwm ar gyfer rhwydweithiau symudol cenedlaethol sy'n ehangach na'r band mmWave ac 1.4 GHz. Awgrymodd y dylai hyn hefyd gynnwys adolygiad o'r defnydd o'r band 3.8-4.2 GHz, gyda'r bwriad o sicrhau bod y 300 MHz isaf yn cael ei gadw'n bennaf ar gyfer cymwysiadau pŵer uchel gan weithredwyr cenedlaethol, a chadw'r 100 MHz uchaf ar gyfer trwyddedau pŵer isel a chanolig, yn ogystal â'r band 6 GHz uchaf ac o bosibl y band 600 MHz.**

**Roedd gan BEIRG bryderon am y penderfyniadau a wneir yn y tymor agos ynghylch newidiadau posibl i'r defnydd o sbectrwm yn y band 470 – 694 MHz a dyfodol dosbarthu teledu. Roedd o'r farn y byddai hyn yn cael effaith ddwys ar Wneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig (PMSE).**

O ran cais BT am fap sbectrwm symudol, fe wnaethom nodi yn ein hymgynghoriad ym mis Chwefror ar y band 6 GHz ein bod wedi ymrwymo i alluogi Wi-Fi a gwasanaethau symudol masnachol i gael mynediad at y band ar y cyd. Ein bwriad yw sicrhau bod sbectrwm yn y 6 GHz uchaf ar gael ar gyfer dyfeisiau symudol unwaith y bydd canlyniad y cysoni Ewropeaidd yn gliriach. Rydym yn cynghori Llywodraeth y DU ar ddyfodol dosbarthu teledu, gan gynnwys y goblygiadau sbectrwm i ddefnyddwyr gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig presennol. Rydym yn cydnabod y gallai nifer o senarios ar gyfer teledu yn y dyfodol olygu bod modd rhyddhau'r sbectrwm 600 MHz a byddem yn ymgynghori maes o law pan fydd penderfyniadau ynghylch dyfodol teledu daearol yn cael eu gwneud, ar ôl ystyried y costau a'r manteision cyffredinol i gymdeithas ac economi'r DU. Rydym wedi cwblhau adolygiad o'n dull awdurdodi ar gyfer y 3.8-4.2 GHz a arweiniodd at fwy o fynediad at sbectrwm i gefnogi arloesedd a thwf. Byddwn yn parhau i fonitro'r galw am y sbectrwm hwn, ochr yn ochr â datblygu rhyngwladol a thechnoleg, a byddem yn ystyried diweddaru ein fframwaith awdurdodi pan fo hynny'n briodol yn unol â'n dyletswyddau.

**Pwysleisiodd Cellnex bwysigrwydd cael eglurder ynghylch dyrannu'r band 1900 MHz ar gyfer System Cyfathrebu Symudol Rheilffyrdd y Dyfodol (FRMCS), amserlenni a pharamedrau technegol tebygol i gynyddu ei allu i ddefnyddio buddsoddiad presennol mewn seilwaith rheilffyrdd ym Mhrif Reilffordd Brighton i gefnogi'r system yn y dyfodol.**

Nodwn sylwadau Cellnex ar y band 1900 MHz a byddem yn annog Cellnex i ymateb i'n hymgynghoriad ym mis Mawrth ar ddefnyddio'r band yn y dyfodol.

## Band 6 GHz uchaf

**Soniodd nifer o ymatebwyr am y band 6GHz Uchaf.**

**Awgrymodd y Gynghrair Wi-Fi y dylai Ofcom ymchwilio i achosion posibl o ddefnyddio Wi-Fi ar gyfer y band 6 GHz, a allai arwain at nifer o fanteision cymdeithasol ac economaidd.**

**Dywedodd Pwyllgor Safonau Rhwydwaith Ardal Leol (LAN)/Rhwydwaith Ardal Fetropolitan (MAN) Sefydliad Peirianwyr Trydanol ac Electroneg (IEEE) 802 y byddai'n hoffi pe bai Ofcom yn sicrhau bod y band 6 GHz uchaf ar gael ar gyfer Wi-Fi cyn gynted â phosibl, a bod ganddo amserlen glir ar gyfer gwneud hynny. Dywedodd y bydd hyn yn creu arbedion maint, yn cynhyrchu marchnad offer gadarn ac yn fuddiol i economi'r DU.**

**Dywedodd Hewlett Packard Enterprise (HPE) ei fod yn credu mai'r 6 GHz uchaf yw'r unig sbectrwm addas sy'n gallu bodloni gofynion perfformiad cynyddol y fersiynau diweddaraf o Wi-Fi (Wi-Fi 6E, Wi-Fi 7, Wi-Fi 8 a thu hwnt) ac aeth ati i annog Ofcom i agor y band yn gyflym.**

**Mewn ymateb ar y cyd, nododd Broadcom, Cisco, HPE, Intel a Meta y byddent yn hoffi pe bai Ofcom yn galluogi'r band 6 GHz uchaf ar frys ar gyfer Wi-Fi. Roeddent yn dadlau na fyddai'r technolegau hyn yn ymyrryd â gwasanaethau presennol ac felly'n caniatáu rhagor o effeithlonrwydd sbectrwm. Ar ben hynny, maent yn gweld y galw am 6 GHz yn tyfu, er enghraifft Wi-Fi 6 a Wi-Fi 7, ac yn credu y bydd yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o achosion arloesol o ddefnyddio ar gyfer busnesau a defnyddwyr, fel AR/VR neu robotiaid ar draws amrywiaeth o sectorau. Roeddent yn rhybuddio y gallai unrhyw oedi yn y penderfyniad ar gyfer y 6 GHz uchaf olygu bod y DU ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill, ac y gallai leihau buddsoddiad yn seilwaith digidol y DU.**

**Gofynnodd Cynghrair y Sbectrwm Deinamig am gamau gweithredu ar unwaith er mwyn i'r 6 GHz uchaf gael eu galluogi ar gyfer defnyddwyr Wi-Fi sydd wedi'u heithrio o'r drwydded, yn enwedig ar gyfer gweithrediadau Pŵer Isel Dan Do (LPI) a Phŵer Isel Iawn (VLP). Awgrymodd hefyd y byddai hyn yn cyd-fynd â ffocws Ofcom ar alluogi cysylltedd di-wifr.**

**Gofynnodd Cellnex UK, yn wahanol i arwerthiant mmWave, bod Ofcom yn sicrhau bod y band 6 GHz uchaf yn cael ei awdurdodi yn y dyfodol ar gyfer rhwydweithiau symudol er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd.**

**Roedd BT yn cynnig y dylid mabwysiadu safbwynt mwy agored ar rannu hybrid yn y band 6 GHz uchaf o ystyried yr arwyddion cychwynnol bod rheoli ymyriant yn ychwanegu cymhlethdod anghymesur.**

Ar hyn o bryd rydym yn ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer y band 6 GHz, gan gynnwys ein dull o wneud y band 6 GHz uchaf ar gyfer gwasanaethau symudol a Wi-Fi. Rydym yn croesawu ymgysylltu â'r diwydiant ynghylch ein cynigion.

## Lloeren

**Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltedd lloeren ac yn benodol byddai'n hoffi i Ofcom ystyried sut gellid defnyddio gwasanaethau lloeren Uniongyrchol i Ddyfeisiau i ymestyn darpariaeth symudol i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yng Nghymru. Yn yr un modd, roedd Llywodraeth yr Alban yn cefnogi gwasanaethau lloeren ar gyfer cysylltedd gwledig ac yn croesawu deialog gydag Ofcom ar y pwnc hwn. Awgrymodd Pwyllgor Cynghori'r Alban y dylai Ofcom wneud mwy i fynd i'r afael â chysylltedd yn yr Alban, fel codi ymwybyddiaeth defnyddwyr o dechnoleg amgen fel lloerennau Orbit Isel y Ddaear.**

**Roedd Eutelsat Group a Viasat yn cefnogi amcan Ofcom i ddiweddaru'r Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Ffeilio Lloerennau ac adolygu'r fframwaith trwyddedu orbit nad yw'n ddaearsefydlog (NGSO). O ran fframwaith trwyddedu NGSO, roedd Viasat o'r farn y dylai ganolbwyntio ar amodau rhannu penodol sydd eu hangen ar y cam trwyddedu neu fynediad i'r farchnad er mwyn osgoi ymyriant, yn hytrach na dibynnu ar gymryd camau ar ôl i ymyriant godi. Awgrymodd Eutelsat Group hefyd y dylai Ofcom ystyried awdurdodiadau ar wahân ar gyfer gweithredwyr lloeren a gweithredwyr rhwydwaith (sy'n gwerthu ac yn rheoli terfynellau lloeren i sectorau penodol) yn y DU.**

**Roedd Eutelsat Group a Viasat hefyd yn cefnogi'r cynnig i adolygu polisi ffioedd trwyddedau porth lloeren, er bod y ddau wedi gwneud nifer o sylwadau ychwanegol:**

**Roedd Eutelsat Group yn nodi bod mabwysiadu fframwaith rheoleiddio ac amodau trwyddedu sy'n cydnabod nodweddion penodol systemau lloeren (orbit daearsefydlog (GSO) ac NGSO) yn allweddol i'r diwydiant lloeren dyfu ond roedd yn annog Ofcom i gadw ffioedd rheoleiddio'n isel.**

**Dywedodd Viasat fod y gwahanol ddulliau o gyfrifo ffioedd ar gyfer pyrth NGSO a GSO yn arwain at fantais gystadleuol i weithredwyr NGSO.**

Rydym yn cydnabod y rôl y gall y gwasanaethau lloeren newydd ei chwarae o ran helpu i gysylltu rhannau gwledig o'r DU, ochr yn ochr â gwasanaethau daearol. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban ynghylch ein gwaith sbectrwm gofod a sut gall hyn fod o fudd i ddefnyddwyr a busnesau ym mhob un o'n gwledydd.

Rydym yn ymgynghori ar gynigion ar sut mae awdurdodi lloeren Uniongyrchol i Ddyfeisiau mewn bandiau symudol a byddem yn croesawu ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Byddwn yn ymgynghori ar ein fframwaith trwyddedu NGSO i symleiddio'r broses ar gyfer gweithredwyr lloeren. Mae ein proses drwyddedu NGSO eisoes yn cynnwys archwiliadau cydfodoli i osgoi ymyriant niweidiol. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gynlluniau i gyflwyno amodau rhannu nac awdurdodiadau newydd ar gyfer gweithredwyr rhwydwaith NGSO ond byddem yn croesawu rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Byddwn yn ymgynghori ar bolisi ffioedd wedi'i ddiweddaru ar gyfer Pyrth NGSO, a fydd yn cynnwys ystyried y gwahaniaeth yn y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer pyrth NGSO a GSO. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod unrhyw gynigion am ffioedd newydd yn cefnogi defnyddio sbectrwm yn effeithlon a gyda hynny'n parhau i hwyluso arloesedd a thwf.

**Trwydded Rhwydwaith Gorsafoedd Daear**

**Roedd Rivada Space Networks GmbH yn cefnogi cynlluniau Ofcom i ymgynghori ar ganiatáu mynediad i fand Ka ar gyfer terfynellau lloeren ar longau ac awyrennau ac yn credu y dylid dyrannu unrhyw sbectrwm sydd newydd ei ryddhau yn llawn i Wasanaethau Lloeren Sefydlog a therfynellau defnyddwyr lloeren.**

**Croesawodd Eutelsat Group ehangu mynediad at fandiau Ku a Ka ar gyfer cysylltedd morol ac awyrenegol, gan weithredu penderfyniadau Cynhadledd Gyfathrebu'r Byd (WRC)-23. Ar wahân, gofynnodd i Ofcom fabwysiadu Penderfyniadau'r ECC i lacio cyfyngiadau ar derfynellau lloeren yn y band 14.25-14.50 GHz. Roedd Eutelsat Group hefyd yn annog Ofcom i ystyried diwygiadau posibl i amodau rhannu yn y band amledd 13.75-14 GHz er mwyn gallu defnyddio gorsafoedd daear cysylltu i fyny Gwasanaethau Lloeren Sefydlog gyda maint antena llai, yn unol ag Eitem 1.2 ar Agenda WRC-27.**

Byddwn yn ymgynghori ar ehangu mynediad terfynellau lloeren awyrenegol a morol at y band Ku (12.75-13.25 GHz) a'r band Ka (27.5-30 GHz), yn amodol ar delerau ac amodau i ddiogelu gwasanaethau daearol, yn dilyn datblygiadau yn WRC-19 a WRC-23.

Ar hyn o bryd nid ydym yn bwriadu adolygu'r defnydd o amleddau 14.0-14.5 GHz eleni. Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau rhyngwladol ar Eitem 1.2 ar Agenda WRC-27 ynghylch defnyddio antenau bach mewn 13.75-14.0 GHz. Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu adolygu awdurdodiadau'r DU ar gyfer yr amleddau hyn cyn cynhadledd 2027.

**Pyrth yn y band Q/V ac E**

**Roedd Viasat yn croesawu ehangu mynediad sbectrwm ar gyfer pyrth lloeren ond byddai'n hoffi i Ofcom fynd i'r afael â'r hyn y mae'n ei ystyried yn ddiffygion yn y fframwaith presennol ar gyfer diogelu systemau GSO NGSO mewn bandiau Q/V a chreu fframwaith technegol newydd ar gyfer yr un peth ym mand E. Nododd mai megis dechrau mae'r gwaith o astudio materion yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol a'r Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebiadau, a'i fod wedi cyflwyno ei astudiaethau ei hun i'w hystyried.**

**Croesawodd Eutelsat Group ymgynghoriad ar gysylltiadau bwydo mewn amleddau uwch gan gynnwys band E. Cred y dylai unrhyw ddull newydd o drwyddedu gorsafoedd daear pyrth yn y bandiau Q/V fod yn seiliedig ar sicrhau mynediad at sbectrwm sylweddol a chyffiniol yn enwedig yn y cyfeiriad cysylltu i fyny ar gyfer gweithredu gwasanaethau lloeren masnachol yn y DU. Mae'n credu y bydd caniatáu mynediad at byrth NGSO yn ychwanegol at byrth GSO yn gwella'r defnydd effeithlon o'r sbectrwm hwn.**

Byddwn yn penderfynu ar ein dull gweithredu, ar ôl ymgynghoriad yn nes ymlaen eleni, ar gyfer sicrhau bod sbectrwm ychwanegol ar gael er mwyn i byrth lloeren eu defnyddio yn y bandiau Q/V ac E a'r amodau defnyddio arfaethedig. Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau rhyngwladol am y fframwaith rheoleiddio ar gyfer Gwasanaethau Lloeren Sefydlog sy'n gweithredu ar yr amleddau hyn. Byddwn yn ystyried goblygiadau unrhyw reoliadau rhyngwladol newydd ar ein hawdurdodiadau domestig yn dilyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd-27.

## Y sector cyfleustodau

**Gofynnodd y Joint Radio Company (JRC), Cellnex UK ac Ericsson i Ofcom ychwanegu maes blaenoriaeth ychwanegol at ei gynllun gwaith 2025/26 i gefnogi nodau sero net y Llywodraeth ar gyfer 2030. Roeddent o'r farn bod angen sbectrwm pwrpasol ar gyfer system ynni 'glyfar' gyda gwell rheolaeth weithredol yn y DU. Tynnodd JRC a Cellnex UK sylw hefyd at y ffaith bod angen i Ofcom fod yn barod i weithredu cyn gynted ag y bydd cyfarwyddyd y Llywodraeth yn glir. Ar ben hynny, cyfeiriodd JRC at argymhelliad 27 ail asesiad seilwaith y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC) a oedd yn awgrymu bod angen strategaeth delegyfathrebiadau i gefnogi'r sectorau ynni, dŵr a thrafnidiaeth.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gofynion cysylltedd i'r sector cyfleustodau. Yn dilyn ein Cais am Fewnbwn yn 2023 a oedd yn nodi bandiau sbectrwm ymgeiswyr i gefnogi cyfathrebiadau gweithredol y sector cyfleustodau yn y dyfodol, rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar atebion posibl a byddwn yn ystyried ymateb y Llywodraeth i argymhellion y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ochr yn ochr â'r gwaith hwn.

# 5. Meysydd trawsbynciol a gwaith sylfaenol

## Twf

**Soniodd nifer o randdeiliaid am y rôl y gallai Ofcom, a rheoleiddwyr yn gyffredinol, ei chwarae o ran hwyluso twf yn eu sectorau. Dywedodd un rhanddeiliad ei fod yn croesawu'r ffaith bod Ofcom yn cydnabod ei ddyletswydd twf ac y byddai'n awyddus i'w weld yn cael ei ddiweddaru mewn perthynas â chynlluniau rheoleiddio i sbarduno twf.**

**Awgrymodd Vodafone, er bod y Cynllun Gwaith arfaethedig yn sôn am rai prosiectau sy'n hyrwyddo buddsoddiad, y gallai fynd ymhellach. Yn benodol, roedd yn tynnu sylw at hunan-adeiladu a rhwydweithiau gwasanaeth cyhoeddus aml-wasanaeth mewn perthynas â ffioedd sbectrwm, a darparwyr Gwasanaethau Cyfathrebiadau Electronig Cyhoeddus a chwmnïau technoleg mewn perthynas â safonau diogelwch fel meysydd ffocws. Dywedodd hefyd y dylai Ofcom fod yn fwy ymwybodol o'i ymyriadau, lleihau cost cydymffurfio a chyflwyno archwiliadau ôl-weithredu i weld a gyflawnwyd y canlyniadau a ddymunwyd.**

**Nododd y Post Brenhinol gyfeiriad Ofcom at y ddyletswydd twf statudol ond gofynnodd am eglurder ynghylch sut bydd hyn yn effeithio ar y sector post.**

**Gofynnodd Wight Fibre i Ofcom neilltuo adnoddau i weithio gyda'r diwydiant telegyfathrebiadau i ddeall sut gall y sector helpu orau i greu twf economaidd.**

**Nododd BT bwysigrwydd cefnogi twf drwy arloesi drwy gyhoeddi canllawiau cydymffurfio clir a chadarn mewn meysydd sy'n dod i'r amlwg, fel diogelwch a chadernid telegyfathrebiadau, a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i'r diwydiant ac yn helpu i gydymffurfio â'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau.**

**Dywedodd TechUK y byddai'n croesawu rhagor o wybodaeth gan Ofcom ynghylch sut byddwn yn gweithio i weithredu ein dyletswydd twf newydd ar draws ein ffrydiau gwaith.**

Rydym bob amser wedi cael dyletswyddau i gyflawni ein swyddogaethau gan ystyried pa mor ddymunol yw annog buddsoddiad ac arloesedd a hyrwyddo cystadleuaeth, ac mae'r ddyletswydd twf yn cyd-fynd yn dda â'r fframwaith hwn. Credwn fod rheoleiddio da a thwf economaidd yn mynd law yn llaw ac mae hyn yn arbennig o wir mewn cyfnod o arloesi technolegol cyflym o'r fath. Yn ein Datganiad, rydym wedi nodi darnau pwysig o waith ar gyfer 2025, a fydd yn cefnogi twf ac arloesedd yn uniongyrchol yn ein sectorau. Gan fod cysylltedd digidol da yn sail gynyddol i'r economi, bydd hefyd o fudd i dwf yn ehangach.

## Newid Hinsawdd

**Fe wnaeth Consumer Scotland annog Ofcom i ddatblygu dealltwriaeth y diwydiannau telegyfathrebiadau a phost o faterion newid hinsawdd ac i gefnogi a chyfrannu at hyrwyddo amcanion sero net.**

**Awgrymodd y Gynghrair Wi-Fi y dylai'r Cynllun Gwaith roi cyfrif am flaenoriaethau cynaliadwyedd y DU.**

**Mae Cynghrair y Sbectrwm Deinamig yn awgrymu y dylai gwaith Ofcom ar ddatblygu technolegau di-wifr gynnwys polisïau sy'n annog arferion gwyrdd, fel defnyddio dyfeisiau pŵer isel a lleihau ôl troed amgylcheddol rhwydweithiau di-wifr.**

**Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n hoffi i Ofcom weithio gyda phob sector (nid dim ond y sector telegyfathrebu) i gyrraedd y targed sero net.**

Nid oes gennym ddyletswyddau i fynd ar drywydd nodau polisi amgylcheddol na newid hinsawdd. Serch hynny, mae gennym ddiddordeb yng nghynaliadwyedd hirdymor y sector telegyfathrebiadau a'r sector post. Mae hyn yn cynnwys eu paratoi ar gyfer effeithiau sero net a newid hinsawdd, yn ogystal â gwella eu harferion cynaliadwyedd i fodloni disgwyliadau buddsoddwyr.

Rydym yn cefnogi ymdrechion y diwydiant i leihau allyriadau, yn enwedig drwy ein hymgysylltiad â Gweithgor Hinsawdd a Chynaliadwyedd y Fforwm Cysylltedd Digidol. Ers 2023, rydym wedi cynnull dau gyfarfod bwrdd crwn blynyddol ar gynaliadwyedd y diwydiant telegyfathrebiadau, gan weithredu fel catalydd ar gyfer rhagor o drafodaethau, gan gynnwys ar strategaethau addasu.

Ar ben hynny, rydym yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill a Llywodraeth y DU drwy fforymau fel Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN), y Rhwydwaith Newid Hinsawdd a Fforwm Llywodraeth-Rheoleiddwyr Sero Net UKRN.

Mae gennym ddiddordeb o hyd ym metrigau amgylcheddol y diwydiant ac rydym wedi cyhoeddi crynodeb o dargedau datgarboneiddio prif ddarparwyr. Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o'r materion y mae rhanddeiliaid yn eu hwynebu wrth gasglu ac adrodd ar ddata ar yr amgylchedd ac ar gynaliadwyedd.

## Ofcom yn ymgysylltu

**Awgrymodd Better Media fod diffyg tryloywder yn adroddiadau data presennol Ofcom a bod hyn yn cyfyngu ar atebolrwydd cyhoeddus ac yn atal rhanddeiliaid rhag ymgysylltu'n effeithiol â phrosesau rheoleiddio. Awgrymodd hefyd mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd i sefydliadau ar lawr gwlad a chymunedol ddylanwadu ar benderfyniadau rheoleiddio, a bod hyn yn creu rhwystr sylweddol i lunio polisïau cynhwysol, lle mae angen i lwyfannau a fframweithiau hygyrch fod ar gael i alluogi adborth amrywiol ar benderfyniadau rheoleiddio. Mae Better Media hefyd yn awgrymu bod Ofcom yn cynnal asesiadau cynhwysfawr o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob penderfyniad mawr i werthuso eu heffeithiau ar grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.**

Fel rheoleiddiwr sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn cydnabod bod tryloywder ac eglurder ynghylch ein penderfyniadau yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth. Mae'r egwyddor hon wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn ein gwaith, yn enwedig yn ein hymgynghoriadau a'n penderfyniadau polisi ac mae ein dull o adrodd ar ddata ar gael ar ein gwefan. Rydym yn ymdrechu i gyhoeddi'r dystiolaeth rydym yn dibynnu arni yn ystod ymgynghoriadau a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae ein hegwyddorion ymgynghori ar gael yma. Dim ond pan na ellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth o dan adran 393(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 y byddwn yn golygu gwybodaeth.

Ein nod yw gwneud systemau cyfathrebiadau'r DU yn hygyrch i bawb. Rydym yn ystyried hygyrchedd, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyson yn y meysydd rydym yn eu rheoleiddio. Mae gwybodaeth fanwl am ein gwaith yn y maes hwn ar gael ar ein gwefan yma.

O ran asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, fe wnaethom ymgynghori ar ddatganiad yn ymwneud â'n dull gweithredu, a'i gyhoeddi. Roedd y datganiad yn ystyried asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ymysg pethau eraill.

## Cyffredinol

**Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol bod gan swyddfa Cymru y gallu i ymateb i'r newidiadau hyn wrth i gylch gwaith Ofcom esblygu.**

Mae gennym raglen helaeth o ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys gweithio gyda'r llywodraethau datganoledig ar nodau ar y cyd, wrth i ni roi'r drefn reoleiddio newydd ar waith ar gyfer Diogelwch Ar-lein. Yng Nghymru, rydym wedi recriwtio aelod ychwanegol o staff yn ddiweddar i helpu i gefnogi ein gwaith yn y maes hwn.

Mae ein cydweithwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisïau yn Ofcom, gan dynnu sylw at faterion perthnasol a chyfrannu gwybodaeth rydym wedi'i chael o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn y Gwledydd.

**Gofynnodd Pwyllgor Cynghori'r Alban i'r Cynllun Gwaith ganolbwyntio mwy ar adrodd yn erbyn y cynllun blaenorol, gan dynnu sylw at yr hyn a weithiodd ac na weithiodd. Roedd hefyd yn annog Ofcom i sicrhau bod yr ymchwil a wneir gan Ofcom yn adlewyrchu pob gwlad a rhanbarth er mwyn gallu dadansoddi'r data yn ôl is-set o wledydd, ein bod yn gwneud mwy o ymchwil ansoddol a bod tîm yr Alban yn sefydlu strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd adrodd yn erbyn y gwaith a nodwyd gennym yn ein cynllun gwaith blynyddol. Rydym yn gwneud hyn yn ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon a gyhoeddwn bob blwyddyn. Ar ben hynny, ar gyfer rhai prosiectau rydym yn cynnal gwerthusiadau ar eu terfyn i ystyried yr effaith y gallai polisi newydd neu ddiwygiedig fod wedi'i chael.

**Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n hoffi gweld mwy o dystiolaeth o waith sganio'r gorwel Ofcom.**

Mae ein rhaglen sganio'r gorwel yn datblygu ein dealltwriaeth o'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio wrth i ni geisio rhagweld datblygiadau yn y dyfodol drwy ymgysylltu, ymchwil a dadansoddi allanol. Mae llawer o'r gwaith hwn yn dechrau fel darnau mewnol ond lle bo'n briodol, rydym yn rhannu ein canfyddiadau'n allanol ar ein gwefan. Rydym hefyd yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill drwy'r Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol ac yn cyfrannu at waith sganio'r gorwel y Fforwm.

**Dywedodd Vodafone y byddai'n hoffi gweld mwy o gysondeb rheoleiddiol yn Ofcom, yn ogystal â chysondeb â'r Llywodraeth, cyd-reoleiddwyr a phartneriaid rhyngwladol.**

Rydym yn ystyried sut mae ein gwaith rheoleiddio yn cyd-fynd â rhwymedigaethau eraill ar ddarparwyr, ac yn cydnabod bod gwerth cael cysondeb lle bo hynny'n bosibl, ond mewn rhai achosion mae'r fframweithiau neu'r amgylchiadau deddfwriaethol yn wahanol. Byddwn yn parhau i wrando ar ein rhanddeiliaid ac yn gweithio gyda'n partneriaid i osod rheoliadau.

**Mae NADP yn nodi nifer y partneriaethau sydd gan Ofcom ond dywedodd nad yw Ofcom yn ymgysylltu â grŵp sy'n cynrychioli pobl sydd wedi colli eu clyw. Mae hefyd yn sôn am sut roedd Ofcom yn arfer cwrdd â grŵp o elusennau ar y cyd, gan ganolbwyntio ar bobl sydd wedi colli eu clyw. Fodd bynnag, roedd y pandemig wedi tarfu ar y rhain. Byddai'n croesawu trafodaeth ar sut gallai'r cyfarfodydd hyn ailddechrau.**

**Hoffai NADP weld safon ansawdd sylfaenol yn cael ei chyflwyno ar gyfer capsiynau awtomataidd mewn gwasanaethau galwadau fideo.**

Rydym bob amser yn hapus i gwrdd â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl fyddar. Er enghraifft, fe wnaethom fynychu Deaffest yn 2024 ac rydym yn mynd i Ddiwrnod y Byddar yn City Lit yn 2025, gan ein galluogi i gwrdd â nifer fwy o bobl fyddar wyneb yn wyneb.

O ran safonau capsiynau awtomataidd ar wasanaethau galwadau fideo, nid oes gennym y pwerau i reoleiddio capsiynau awtomataidd ar wasanaethau galwadau fideo (fel Teams a Zoom), felly nid ydym yn gallu gosod safonau ar eu cyfer[1].

**Ar ben hynny, er bod NADP yn nodi'r cynnydd y mae Ofcom wedi'i wneud o ran amrywiaeth a chynhwysiant, byddai hefyd yn hoffi i Ofcom osod targedau Amrywiaeth a Chynhwysiant penodol ar gyfer pobl sydd wedi colli eu clyw.**

Mae Ofcom yn gyflogwr blaenllaw Hyderus o ran Anabledd gyda Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau cynrychiolaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Mae gennym darged o 15% ar gyfer cynrychiolaeth pobl anabl ar draws y sefydliad. Mae'r targed hwn yn cynnwys cydweithwyr sydd wedi colli eu clyw. Nid ydym yn gosod targedau penodol ar gyfer cyflyrau unigol.

Yn Ofcom, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pob cydweithiwr anabl yn cael mynediad teg at gyfleoedd, gan gynnwys sicrhau bod ein haddasiadau rhesymol yn darparu ar gyfer ymgeiswyr a chydweithwyr sydd ag amhariad ar eu clyw. Rydym yn defnyddio'r dull "model cymdeithasol" ar gyfer anabledd yn y gwaith, gan gynnwys addasiadau i'r gweithle, gan ddileu rhwystrau i alluogi pob cydweithiwr i gyflawni ei rolau a pheidio â bod angen tystiolaeth feddygol unigol neu adrodd am unrhyw gyflwr penodol.

[1]https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/902879/Government_response_EECC.pdf